

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Chwefror 2012

Rhif 419

50c

Marciau Llawn !

Ysgol Tregarth yn ennill Gwobr Fawr



Mae Ysgol Tregarth yn dathlu ar ôl trechu ysgolion o bob cwr o'r wlad i ennill Gwobr Glodfawr *Link2Learn* gan HSBC a'r Cyngor Prydeinig – yn sgil eu gwaith o gynorthwyo plant i ddod yn ddinasyddion byd-eang.

Derbyniwyd y wobr o £1,500 mewn seremoni a gynhaliwyd ym mhencadlys HSBC yn y Deyrnas Unedig yn Canary Wharf yn Llundain ar ddydd Mercher, 16 Tachwedd, fel rhan o Wythnos Addysg Rhyngwladol y Cyngor Prydeinig eleni.

Aeth pum disgybl i Lundain i dderbyn y wobr ar ran yr ysgol. Roedd pawb wedi rhyfeddu at eu cyflwyniad.

Cafodd Ysgol Tregarth ei gosod yn ail yn y categori Ysgol Gynradd Orau – un o bum categori yn y Gwobrwyon *Link2Learn*. Mae'r gystadleuaeth yn gwobrwyo ysgolion sy'n gwneud gwaith eithriadol i ddod â'r byd i mewn i'r ystafell ddosbarth trwy eu cysylltiadau ag ysgolion dros y môr, gan helpu plant i gael profiadau o ddiwylliannau eraill a'u paratoi ar gyfer bywyd a gwaith mewn cymdeithas ac economi byd eang.

Mae'r dimensiwn rhyngwladol yn flaenoriaeth yn yr ysgol ers llawer blwyddyn ac mae wedi gwreiddio'n gadarn yn y cwricwlwm. Bu'r disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni yn gefnogol iawn ac maent bob amser yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau. (Parhad ar dudalen 3)

Dwy wobr ffilmiau PICS i Ffilm Ysgol Llanllechid

“Roedd yn anarferol ac yn yn llawn dychymyg” – ac am y rhesymau hynny y gwobrwywyd ffilm Ysgol Llanllechid 'Moli'n Holi' gyda'r wobr gyntaf yn y categori Ysgolion Cynradd yng Ngŵyl Ffilm PICS. Ac i goroni'r cyfan, enillodd y ffilm y brif wobr yn ogystal, sef 'Gwobr yr Ŵyl'.

Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo boblogaidd ar nos Sadwrn, 28 Ionawr yn y Galeri, Caernarfon ac yno cafodd sêr a chyfarwyddwyr addawol y dyfodol droedio'r carped coch!

Roedd 30 ymgais gan ysgolion (cynradd ac uwchradd) o Gymru benbaladr wedi dod i law'r panel o feirniaid.



Profiad gwfreiddiol oedd cael eistedd yn y Galeri yn gwyllo'r ffilmiau a ddaeth i'r rhestr fer, cyn cael mwynhau yng ngwmni Gwibdaith Hen Frân.

Llongyfarchiadau gwresog i'r wyth disgybl ar eu llwyddiant ysgubol, sef Bethan, Dion, Dylan, Enlli, Gethin, Josh, Morgan a Moli.

Gallwch weld y ffilm Moli'n Holi ar:

<http://www.gwylffilmpics.com/eng.cystadleuaeth.html>

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts	☎ 600965
hylaw@btinternet.com	
Ieuan Wyn	☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk	
Lowri Roberts	☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com	
Dewi Llewelyn Siôn	☎ 600274
dewision@btinternet.com	
Fiona Cadwaladr Owen	☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk	
Siân Esmor Rees	☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com	
Emlyn Evans	☎ 600501
emlynevans@live.co.uk	
Neville Hughes	☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com	
Dewi A Morgan	☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net	
Dafydd Fôn Williams	☎ 601583
dafydd@gerlison.wanadoo.co.uk	
Walter W Williams	☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk	

SWYDDOGION

Cadeirydd:

André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn oedd Neville Hughes.
Golygydd mis Mawrth fydd Ieuan Wyn,
Talgarnedd, Ffordd Carneddi, Bethesda
LL57 3SG (01248 600297)
cylch@tiscali.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher
29 Chwefror os gwelwch yn dda. Plygu
nos lau, 15 Mawrth yng Nghanolfan
Cefnfaes am 6.45

Cydnabyddir
Cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Chwefror

- 18 Bore Coffi Eglwys Glanogwen. Neuadd
Ogwen. 10.00 – 12.00
- 19 Cyngerdd lansio CD Côr Meibion
y Penrhyn. Capel Jerusalem am 7.30.
- 20 Te Bach. Ffestri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00
- 21 Te Crempog. Eglwys y Gelli Tregarth.
2.00 – 4.00.
- 21 Noson Gremfogau. Eglwys St. Ann a
St. Mair, Mynydd Llandygai.
- 22 Te Crempog. Canolfan Glasinfryn am
2.00
- 23 Merched y Wawr Bethesda. Dathlu Gŵyl
Ddewi. Cefnfaes am 7.00
- 25 Bore Coffi Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 27 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru. Llŷr
Huws Gruffydd. Neuadd Ogwen am 7.00

Mawrth

- 01 Gwasanaeth Gŵyl Ddewi. Eglwys y
Gelli Tregarth am 10.30 yb.
- 01 Dathlu Gŵyl Ddewi. Paned, Cacen a
Chân. Carmel Llanllechid, 1 Mawrth,
3.00 – 4.30.
- 02 Dydd Gwedd Byd-Eang y Chwiroydd
(Rhyngengwladol). Capel Jerusalem
Bethesda
- 02 Noson gyda Siân James. Neuadd Ogwen
am 7.00
- 02 Cyngerdd er budd Eisteddfod yr Urdd
2012. Neuadd P.J. Bangor am 7.00
- 03 Bore Coffi Plaid Lafur (Elw at
Eisteddfod yr Urdd Eryri). Neuadd
Ogwen 10.00 – 12.00
- 05 Merched y Wawr Tregarth. Dathlu Gŵyl
Ddewi. Ffestri Shiloh am 7.00
- 07 Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro
Dyffryn Ogwen. Dathlu Gŵyl Ddewi.
Ysgol Llanllechid am 6.30.
- 09 Bingo at Glwb Epilepsi Ysbyty
Gwynedd. Canolfan Glasinfryn am 7.30.
- 10 Bore Coffi Llys Dafydd. Neuadd Ogwen
10.00 – 12.00
- 10 Marchnad Cynnyrch Lleol. Ystafell Fawr
Capel Jerusalem. 10.00 – 2.00
- 12 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.
Elvey Macdonald. Ffestri Jerusalem am
7.00
- 16 Cawl a Chân yn Eglwys St. Cedol, Pentir
am 7.00
- 17 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. .
Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00
- 24 Bore Coffi Llais Ogwan. Neuadd Ogwen
10.00 – 12.00
- 29 Merched y Wawr Bethesda. Medwyn
Williams. Cefnfaes am 7.00
- 31 Bore Coffi Samariaid. Neuadd Ogwen
10.00 – 12.00

Ebrill

- 01 Cymanfa Ganu. Capel Bethlehem,
Talybont.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Chwefror

- £30 (60) Gomer Davies,
32 Tal y Cae, Tregarth.
- £20 (112) Rhian Jones,
Hen Barc, Bethesda
- £10 (170) Morfudd Roberts,
Llwyn Meurig, Bethesda
- £ 5 (52) Barbara Jones,
1 Dolhelyg, Talybont..

Rhoddion i'r Llais

- £ 20.00 Er cof annwyl am ben-blwydd John
Gareth Parry, 43 Adwy'r Nant,
Bethesda (26 Chwefror). Cariad
mawr am byth! Mam a'r teulu i gyd
- £ 10.00 Gwyneth Morris, Gwaen Gwial,
Gerlan
- £ 4.00 Teulu Maes yr Hedydd, Tregarth
- £ 3.50 Heulwen Bright, Ffordd Bangor.
- £25.00 Steffan Roberts, Pen y Ceunant Isaf,
Llanberis.
- £25.00 John a Mair Jones, Siop John,
Bethesda
- £ 8.00 Don Hughes, Halifax.
- £ 5.00 Ceri Dart, 3 Rhos y Nant, Bethesda.
- £10.00 Hywel Williams, Llanfairpwll.
- £ 10.00 Er cof annwyl am Brian Parry,
45 Abercseg, Bethesda, a fu farw ar
4 Chwefror 2010, oddi wrth Joan a'r teulu.
- £ 50.00 Pearl a Katie Midwinter, mewn
hiraeth am Eric. X.
- £ 5.00 Mrs Morfudd Jones, Maes y Gamedd,
Bethesda
- £10.00 Mrs Shirley Evans, Bwthyn,
Braichmelyn, er cof am William
Hugh Thomas Evans - gŵr, tad, a
thaid annwyl.
- £25.00 Bryn Roberts, Sain Ffagan.
- £12.00 Mrs E. V. Amos, Bethesda
- £12.00 Ann Huws, Y Fali.
- £12.00 Ken Jones, Edgeware.
- £12.00 Myrddin Williams, Clynnog Fawr.
- £10.00 Bet Lewis, Abergynolwyn.
- £10.00 D. Mair Jones, Eton Wick.
- £ 7.00 D.W. Thomas, Barrow in Furness.
- £ 7.00 Gwen Pritchard, Bangor.
- £ 7.00 Donna Coleby, Penwortham.
- £ 7.00 Gwynfryn Davies, Caernarfon.
- £ 7.00 Betty Jones, Deganwy.
- £ 5.00 Emyr Wyn Hughes, Porthaethwy.
- £ 2.50 Huw Brown, Y Swisdir.
- £ 2.00 Eirwen Hughes, Ripponden.
- £ 2.00 Mrs B. Owen, Tregarth.
- £ 2.00 J, Gwynfor Davies, Widnes.
- £10.50 Jean Jones, Cemaes.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwychoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar gasét bob mis,
cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan Tasg,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Nyth y Gân

Y Tyddynwr

Ni chafodd fawr o addysg
Ymysg breintiedig rai
Ond dysgu wnaeth trwy brofiad
Wrth drin y graig a'r clai.

O erwau llwm a brwynog
A'r fawnog cafodd ef
Ran fechan o'i gynhaliath
Yn swm yr oen a'i fref.

Bu hefyd yn y chwarel
Mewn rwbel dan y graig
Yn ennill â'i drwm gelfi
Y geiniog brin i'w wraig.

Caed yno wir frawdoliaeth
Byd amaeth ar y bonc
Cans yno roedd tyddynwr
Yn rhannu'r cŷn a'i donc.

Rhwng muriau moel y caban
Ymddiddan fu y rhain
Yn hollol groes i'r disgwyl
Yn trafod pethau cain.

Roedd yno hwyl a thynnu coes
A 'chydig iawn o eiriau croes.

Y Fflam

Mae iddi ddawns a gwres a lliw
A bywyd 'rôl ei thanio,
Ac o flaen tân ar noson oer
Y hi sy'n ein cysuro.

Ymlacio'n braf gawn yn ei gwres
Wrth edrych arni'n llosgi,
A rhoddi ambell glap o lo
I'w chynnal a'i bywiogi.

Mae'n bleser edrych arni hi
Yn creu gwahanol liwiau
A'i llu batrymau yn y tân
Yn marw ac ail-gynnau.

Ychydig o aelwydydd nawr
A wêl ei dawn a'i lliwiau;
Y glowyr dewr o'r pyllau glo
Ddiflannodd o'n bywydau.

Dafydd Morris

Neuadd Ogwen

Bethesda

Bore Coffi

Plaid Cymru

Bore Sadwrn, 25 Chwefror
10.00 - 12.00
Mynediad 50c.

Cyfarfod Blynyddol Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

yn Neuadd Ogwen
Nos Lun 27 Chwefror
am 7.00 o'r gloch.

Gŵr Gwadd:
Llŷr Huws Gruffydd, A.C.

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru



Llwyddiant Ysgol Tregarth

(parhad o'r dudalen flaen)

Mae pawb yn yr ysgol yn falch iawn bod yr holl waith caled wedi cael ei gydnabod trwy ddyfarnu'r wobr hon.

Dywedodd John Rolfe o'r Cyngor Prydeinig: "Llongyfarchiadau i bawb yn Ysgol Tregarth. Bu dimensiynau rhyngwladol addysgu a dysgu yn greiddiol i waith y Cyngor Prydeinig ers dros 75 mlynedd ac rydym yn falch iawn o weithio gyda Rhaglen Addysg Byd-eang HSBC i ddatlu grym ac effaith y cyswilt rhwng ysgolion. Nawr, fwy nag erioed, mae angen i ni ddeall ein gilydd yn well yn y byd, lle ceir mwy o gysylltiadau a rhyng-gysylltiadau byd eang, ac mae partneriaethau ysgol rhyngwladol yn rhan bwysig o hyn. Rydym yn ddiolchgar i Ysgol Tregarth am eu gweithgareddau rhyngwladol anhygoel sy'n cyfoethogi addysg y disgyblion."

Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cafwyd cyfarfod prysur iawn ar 31 Ionawr gan fod nifer helaeth o eitemau wedi eu cynnwys ar yr agenda.

Y Cyngorydd Dafydd Meurig oedd yn arwain o'r gadair ac fe gafwyd trafodaeth frwd a bywiog ar faterion megis yr Ymgrych Aelodaeth, maniffesto ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir, Arweinyddiaeth y Blaid, a'r ddogfen "Camu 'Mlaen : Adfywio'r Blaid i Gymru".

Croesawyd y newyddion bod aelodaeth y Blaid yn genedlaethol wedi cynyddu 23%, nifer ohonynt yn Nyffryn Ogwen. Diolchwyd i bawb am eu gwaith yn casglu tâl aelodaeth 2012.

Mae ein cyngorwyr lleol yn parhau gyda'u gwaith da yn y gymuned ac fe gafwyd adroddiadau gan sawl un ohonynt, yn cynnwys Ann Williams, Wynn Williams a Dafydd Meurig. Mae cryn anniddigrwydd o hyd ynglyn â'r drefn gosod tai, sydd yn rhoi blaenoriaeth i bobl o'r tu allan i'r Dyffryn! Penderfynwyd ein bod yn anfon llythyr at Gartrefi Cymunedol Gwynedd gyda chopi i Alun Ffred Jones AC a Hywel Williams, AS.

Adroddwyd bod Cymorthfa Hywel Williams, AS, yn Neuadd Talgai, Llandygai, wedi bod yn brysur iawn. Diolchwyd i bawb a fu'n helpu.

Anogwyd yr aelodau i fynychu'r cyfarfod hystingau ar gyfer yr etholiad arweinyddol yn Theatr Seilo, Caernarfon ar nos Lun, 20 Chwefror. Cyfle i glywed beth sydd gan yr ymgeiswyr i ddweud ac i ofyn cwestiynau. Ni fydd pleidleisio yn digwydd yn y cyfarfod. Bydd pob aelod yn derbyn papur pleidleisio drwy'r post ddiwedd Chwefror.

Cynhelir Cynhadledd Wanwyn Plaid Cymru ar 23 a 24 Mawrth yng nghae rasio Ffos Las yn Nhrimsaran, Caerfyrddin. Dyma fydd cyfle cyntaf ein harweinydd newydd i gyfarch y Blaid yn dilyn yr etholiad arweinyddol.

I orffen ar nodyn lleol, edrychwn ymlaen at ein bore coffi ar 25 Chwefror a'n Cyfarfod Blynyddol ar nos Lun, 27 Chwefror.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Yn gynnar ym mis Ionawr, aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod Plaid Lafur Arfon a Phlaid Lafur Môn ar y cyd, i drafod cynigion y comisiwn ffiniau ar gyfer etholaethau seneddol newydd i Gymru, e.e. rhoi Bangor, Dyffryn Ogwen ac ardaloedd eraill gydag Ynys Môn. Awgrymwyd gwelliannau, a hefyd awgrymwyd yr enw 'Môn-Menai' yn hytrach na 'Menai ac Ynys Môn'. Yna, aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod Plaid Lafur Gogledd Cymru yn y Rhyl i drafod yr un pwnc.

Yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod misol arferol y gangen oherwydd bod rheolau newydd y Blaid Lafur wedi symud y Cyfarfod Blynyddol i'r cyfnod ar ôl yr etholiadau ym mis Mai. Cafwyd adroddiad am Gyngor Gwynedd, e.e. y penderfyniad i godi deg punt y dydd am ddefnyddio canolfannau gofal dydd, a'r ardal ddi-atodol mewn rhannau o Fethesda a'r Gerlan.

Hefyd, cafwyd adroddiad am Gyngor Bethesda, e.e. newid y clinig a siop arall i fflatiau; y penderfyniad mewn egwyddor i gymryd gofal o Ganolfan Rachub ar ôl dwy flynedd; a'r cynghorau eraill yn y Dyffryn.

Yna bu trafodaeth am Gomisiwn Silk, sydd yn ystyried rhoi pwerau trethi a benthyg arian i Gynulliad Cymru.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Chwefror 21ain am 7.30.p.m. yng Nghanolfan Cefnfaes, ond NI chynhelir cyfarfodydd yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill.

Rygbi (dan 14)

Nant Conwy 5 - Bethesda 10

Dechreuad da gan yr hogia cyn i Nant gael cyfle i ddeffro. Y bêl yn cael ei chadw ymysg y blaenwyr am gyfnodau hir cyn ei thafu allan i Lewis Hall ac ef yn cael rhediad cryf i ennill tir. Gweithiodd y blaenwyr y bêl ymlaen eto o'r ryc cyn i'r bêl gael ei lledu ar y dde gyda Ashley Rowlands yn gwthio Nant o'r ffordd a thirio am ei gais cyntaf. Taro'r postyn ddaru lago Davies gyda'r trosiad.

Daeth Nant yn ôl i'r gem wedyn gan gystadlu'n frwd ar y llawr, ond nid oedd Pesda'n ildio dim gyda'r cefndryd Iwan a Morgan Roberts ym mhob man. Gweithiodd y sgrwm yn dda drwy'r hanner a dyma ddaeth ag ail gais y tîm gyda Ashley'n croesi'r gwyngalch am yr eildro.

Wedi'r hanner daeth Nant allan yn tanio ac fe gawsant eu haeddiant gyda chais cyflym o'r cychwyn. Bu pwysu aruthrol wedyn gan y tîm cartref ond 'roedd Pesda'n sefyll yn gadarn ymysg y blaenwyr; Deifid Wyn yn datblygu pob gem a Kyle Thomas yn awchu am gael y bêl yn ei ddwylo. Gwelwyd chwarae deallus yn y chwarter olaf gan amrywio codi'r bêl o'r sgrwm a chicio i ennill tir; ac o wneud hynny aethpwyd ar bêl tuag at 22 Nant a mygu'i canolwyr cyflym. Gyda'r gem yn tynnu at ei therfyn, gwelwyd Cai Price yn derbyn y bêl ar garlam mewn symudiad o'r maes ymarfer ac ennill 15 metr o dir. O'r chwarae rhydd yn dilyn hynny cicwyd y bêl allan gan Steffan Owain i selio buddugoliaeth haeddianol oddi cartref.

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

John Wyn Jones,
Siop W E Jones
(Siop John), Rhes Fictoria
(Stryd Fawr), Bethesda
☎ 600251

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☎ 601902

Diolch

Dymuna Mary Jones, 42 Erw Las, ddiolch i bawb am yr holl garedigrwydd a gafodd dros y cyfnod wedi iddi gael y ddamwain a thorri'r ddau arddwrn. Diolch yn arbennig i'r rhai a gludodd fwydydd blasus iddi. Drwy'r cwbl mi gafodd ginio Nadolig ardderchog hefyd - diolch i'r cogydd ifanc o fri sydd yn digwydd preswyllo yn yr un tŷ â Mary (h.y. Dewi'r mab!). Diolch o galon i chi i gyd.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Hilda Campbell, 11 Erw Las, sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar. Brysiwch wella Hilda!

Gerallt Adref

Da iawn oedd clywed fod Gerallt Jones, Fferm Felin Coetmor, wedi cael dod adref o'r diwedd. Bu llawer o bryderu amdano dros yr wythnosau a dreuliodd mewn gwahanol ysbytai yn dioddef o anafiadau enbyd. Pob dymuniad da am wellhad llwyr i ti Gerallt!

Profedigaeth

Drwg gennym glywed am farwolaeth mam Paul Rowlinson, Crud yr Awel, Lôn Newydd Coetmor, yn ystod mis Ionawr. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Paul a'r teulu yn eu profedigaeth!"

Metron

Llongyfarchiadau i Manon Williams ar gael ei phenodi i swydd metron yn Ysbyty Gwynedd. Mae Manon, fel y gwyddom, un un o Stad Coetmor, Bethesda, ac yn ferch i Mrs Jean Ogwen Jones a'r diweddar Alun Ogwen Jones. Pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs R. Moore, Rhos y Coed ar yr achlysur hapus o ddod yn nain a thaid i fab a anwyd i Dylan a Nia.

Cartrefi Newydd

Croeso cynnes iawn i Mrs Jennie Jones i'w chartref newydd yn 11 Bryn Casedg

Hefyd croeso i Mr a Mrs David Jones a'r teulu i Ffordd Bangor.

Pen-blwydd Arbennig

Mae Ellis Thomas, 33 Abercaseg, yn dathlu ei ben-blwydd yn 65 oed ar 25 Chwefror. Pen-blwydd hapus iawn iddo oddi wrth y teulu a'r ffrindiau i gyd.

Ysbyty

Cofion cynnes iawn a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi cael dod gartref erbyn hyn: Mrs Morfudd Ashworth, Rhos Gordon; Mr Bert Hughes, Stryd John; Mrs Carys Thomas, Rhos Douglas; Mrs Mary Davies, Glanogwen; Mr Stan Edwards, Coetmor; Mrs Joan Morris, Adwy'r Nant; Mrs Nancy Evans, Rhos Pen-y-bryn; Mrs Hilda Campbell, Erw Las; Mr Percy Parry, Erw Las; Mrs Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas; Mrs Heddwen Jones, Rhos y Coed.

Profedigaeth

Yn dawel, yn Ysbyty Gwynedd ar 23 Ionawr, bu farw Mr Deiniol Wyn Owen, 2 Glanogwen yn 73 oed, priod annwyl Mrs Eirwen Owen, tad gofalus Carol, Dafydd, Arwyn a Bethan a thad yng nghyfraith Stephen, Dawn-Marie, Glenda a Dylan. Taid hoffus a brawd Eirlys, Euronwy a'r ddiweddar Jennie. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Iau, 26 Ionawr gyda gwasanaeth yn Amlogfa Bangor lle daeth tyrfa fawr ynghyd. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dewi T. Morris, Porthmadog. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich colled a'ch hiraeth am Deiniol.

Diolch

Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Margaret Walton ddiolch o galon i bawb am eu cydymdeimlad a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt. Diolch yn arbennig i gartref Plas Ogwen am eu gofal dros y blynyddoedd. Diolch hefyd i Mr Gareth Williams am ei waith o drefnu'r angladd ac i'r Parchedig G. Hughes a Mrs Helen Williams am bob cymwynas.

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Ar 6 Rhagfyr aeth 34 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Lerpwl. Cafwyd diwrnod da, er ei bod yn oer iawn! Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a fu'n trefnu.

Yna ar ddydd Mawrth, 13 Rhagfyr, aeth 42 ohonom i Fae Colwyn yn y bore ac ymlaen i westy Glan Aber ym Metws y Coed, lle cafwyd cinio Nadolig ardderchog. Diolchodd y cadeirydd am y trefniadau ac i bawb a ddaeth a gwobrau ar gyfer y raffl.

Cofion a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef: Mr Stan Edwards, Coetmor; Mrs Glenys Lloyd Jones, Glanffrydlas;

Neges i'r Aelodau: Cofiwch am y pwyllgor fore Llun, 27 Chwefror 2012 am 11.15 y bore.

Cyfle Cothi



Llongyfarchiadau i Cerys Gwennllian Jones o Ffordd Pant am ennill y cyfle i gael hyfforddiant arbennig fel rhan o raglen Cyfle Cothi ar Radio Cymru. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i dalentau newydd dderbyn hyfforddiant a chael dangos eu doniau ar y llwyfan, a hynny dan oruchwyliaeth craff rhai o enwogion y byd perfformio.

Cafodd Gwennllian ei dewis gan banel o feirniaid oedd yn cael ei arwain gan yr enwog Margaret Williams, wedi iddi anfon CD o ganeuon a gyfansoddwyd ganddi i'r rhaglen sy'n cyflwyno talentau perfformio newydd ar radio Cymru.

Fel rhan o'r rhaglen a ddarlledwyd ychydig cyn y Nadolig cawsom glywed y sesiynau mentora a gafodd Gwennllian gan Meilir Gwynedd (Sibrydion) yn ei stiwdio yng Nghaerdydd yn ogystal â chyfweliadau gan rai o'i ffrindiau. Fel her i gloi'r hyfforddiant cafodd Gwennllian gyfle i berfformio gyda Meilir Gwynedd mewn gig Parti 'Dolig Nyth yng Nghlwb Gwdihw yn y brifddinas.



Yng ngeiriau Gwennllian roedd y profiad yn un "Awesome"! Cafodd ganmoliaeth ac adborth bositif iawn gan sawl un a oedd bresennol ac edrychwn ymlaen at gael clywed mwy ganddi yn y dyfodol agos.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar noson ddigon oer, yr ail o Chwefror, rhoddodd ein llywydd Gwyneth Morris groeso cynnes iawn i bawb a oedd wedi mentro allan ar y noson. Daeth nifer fechan o ymddiheuriadau i law - rhai o'r aelodau yn dioddef dan annwyd ac yn ei gweld yn rhy oer i ddod allan. Anfonwyd ein cofion at yr aelodau sy'n disgwyl llawdriniaethau ac at y rhai sy'n cael triniaeth ar hyn o bryd. Brysiwch wella! Anfonodd Gwyneth ein cofion at Margaret Hughes hefyd, sydd yng nghartref Bryn Llifton ym Mangor. Mae pawb yn siarad am Margaret yn aml iawn yn y sefydliad a bydd Jean yn mynd â'n cofion ati bob wythnos.

Darllenwyd cofnodion y mis diwethaf gan Jean a'r llythyr misol gan Gwyneth. Trafodwyd gweithgareddau'r sefydliad, gan gynnwys cyfarfod blynyddol y Ffederasiwn yng Ngwynedd, sydd i'w gynnal yn Ysgol Brynrefail ar 4 Chwefror. Bydd y digwyddiadau a gynhelir yn y cyfarfod yn cael eu crybwyll mis nesaf.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr Arwyn Oliver, cyn brifathro Ysgol Pen-y-bryn ac Ysgol Llanllechid. Gŵr yn enedigol o Fynydd Llandygái yw Arwyn ac wedi iddo ymdeol bu'n cyflawni llawer o wahanol weithgareddau. Ei destun heno oedd lluniau a hanes y pontydd o Lyn Ogwen i lawr at Dal-y-bont.

Cawsom noson ddifyr iawn yn olrhain hanes y pontydd ac o ble daeth eu henwau, rhai nad yw'r cyhoedd byth yn eu gweld oherwydd eu lleoliad. Roedd yn braf iawn cael cipolwg ar rai o'r pontydd hyn a diolchodd Margaret Owen yn fawr iawn i Arwyn am ein tywys ar y daith. Diolchodd hefyd i'r merched am y baned. Mrs Beti Williams enillodd y wobwr lwcus, yn rhodd gan Jean Hughes.

Capel Bethania

4 Mawrth: Mr J.O. Roberts
11 Mawrth: Dim Oedfa
18 Mawrth: Parch. Gwynfor Williams

Oedfaon am 5.30
Croeso Cynnes i Bawb

Cylch Meithrin Cefnfaes

Sesiynau Dyddiol
9.15 - 12.15 o'r gloch
Cysylltwch â ni ar
07815 085 323

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

'LLENWI'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

yng Nghapel Jerusalem
Estynnir croeso cynnes i
bawb i oedfaon Sul

Bore Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10.00
Hwyr Gwasanaeth am 5.00

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Anfonwn ein cofion gorau at yr aelodau sydd yn yr ysbyty, yn derbyn triniaethau allanol neu mewn cartrefi henoed. Yr un cofion atoch chwithau sy'n gaeth i'ch cartrefi. Cawsom blwc o dywydd oer ddiwedd y mis a hynny'n effeithio tipyn ar yr henoed. Meddylw'n am y digartref ar adegau fel hyn a'r rhai sy'n dioddef tywydd anarferol o oer ar draws Ewrop. Gobeithio yn wir y caiff y côr gyfle i ganu o'r diwedd ar y 19ed o Chwefror!

Cynhaliwyd cyfarfod gweddi dechrau'r flwyddyn o dan ofal Jean Ogwen Jones, gyda nifer o aelodau yn cynorthwyo a chynhaliwyd y seiat yn wythnosol fel arfer. Daeth Andre Lomozik atom i Gymdeithas y Chwiorydd i roi mwy o'i hanesion lleol diddorol. Y tro yma aeth a ni am dro o gwmpas mynwentydd yr ardal gan ddangos lluniau o feddau enwogion a rhai nad oeddent mor 'enwog' ond fod rhyw nodwedd arbennig yn perthyn iddynt megis hirhoedledd. Jean Ogwen Jones oedd Llywydd y noson.

Darparwyd paned gan Medi. Rita Evans, Ceinwen Hughes a Rhiannon Efans. Diolchwyd i bawb gan Heulwen Roberts. Cynhaliwyd y Gymdeithas Lenyddol ym Methlehem, Talybont. Y Llywydd oedd y Gweinidog ac fe drefnwyd y noson ddiddorol o Frethyn Cartref amrywiol iawn gan Neville Hughes

Llongyfarchiadau i Gwyneth Morris, Gwaengwiall ar ddod yn nain unwaith eto i drydedd merch Dafydd ei mab a'i briod.

Dymuniadau gorau i Jennie Jones yn ei chartref newydd yn Bryn Caseg a chroeso i'r teulu o Ganada sydd ar ymweliad â hi yno. Croeso (hwyr) i Mair a John Jones i'w cartref hwythau yn Ffordd Bangor

Llongyfarchiadau mawr i Manon Williams, merch Jean a'r diweddar Alun Ogwen Jones ar gael ei phenodi yn fetron gan Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr. Gwyddom am ymroddiad llwyr Manon i'w gwaith. Llongyfarchiadau hefyd i Nia, merch Medi a'r diweddar Gwilym Williams ac i Siwan, wyres John ac Elina Owen ar eu dyweddiadau.

CYHOEDDIADAU'R MIS

Chwefror

19 Y Gweinidog

26 Oedfa Gŵyl Ddewi(10)

Mawrth

04 Y Gweinidog

11 Parch. Cledwyn Williams

18 Y Gweinidog

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Cyfarfu'r gangen yng Nghanolfan Cefnfaes, nos Iau, Ionawr 26, noson ar ôl dathlu Gŵyl Santes Dwynwen ac roedd y Llywydd, Margaret Jones, wedi bod wrthi'n brysur yn addurno'r byrddau gyda chalonnau a rhosod coch. Roedd hefyd wedi coginio cacenni bach a llenwi'r dysglau gyda siocled. Does ryfedd fod aelodau cangen Bethesda yn edrych mor dda! Gwenno Evans oedd y cyfeilydd, Glenys Clark, yn ôl ei harfer wrth fwrdd y Trysorydd ac Eleanor Morris, yr Ysgrifennydd yn ddiwyd gyda'r trefniadau. Roedd Eleanor wedi anfon llythyr at Ysgol Dyffryn Ogwen i ddiolch am y croeso a'r te Nadolig hyfryd. Llongyfarchiadau i'r athrawes newydd, Ceri Ogwen, ar lwyddiant y prynhawn ac i'r plant dan arweiniad eu hathro cerdd.

Cyhoeddwyd nifer o ddyddiadau pwysig i'r gangen ac yna aed ymlaen gyda'r trefniant am y noson sef noson o dan ofal rhai o'r aelodau ei hunain. Tri Lle oedd y testun, ar batrwm y rhaglenni diddorol ar y teledu.

Dewiswyd pum aelod i sôn am lefydd pwysig iddynt hwy. Gan mai merch i weinidog Wesle yw Megan Phillips, roedd rhaid iddi hi gael sôn am fwy na thri lle ond gwnaeth hynny yn ddiddorol ac mae'n siwr y buasai wedi gallu ein difyrru am noson gyfan.

Soniodd Elina Owen am ei haddysg yn Sir Gaerfyrddin, am dwf yr iaith ym Merthyr Tudful ers ei dyddiau hi yno yn athrawes ifanc yn y pumdegau ac am rai o gymeriadau doniol a difyr Penllyn.

Aeth Jean Ogwen Jones a ni i Gaerdybi a'i magwraeth yno, dros y ffin i'r coleg i Lerpwl a'i chartref cyntaf gydag Alun yn Ellsemere Port cyn dod yn ôl i Fethesda i orffen y daith.

I Sir Fôn yr aeth Eurwen Morris hefyd i ddechrau gan son yn bennaf am gartref a Thaid yno – nefoedd fach i blentyn a'r lle gorau yn y byd iddi hi. Yna symudodd i sôn am Moelfre a'i hymweliadau â'r gwron Richard Evans a fu'n gyfrifol am arbed gymaint o fywydau. Yna aeth draw i'r Ysgwm yn Nhrawsfyndd, cartref Hedd Wyn, un o'i harwyr mawr.

Yr olaf i siarad oedd Glenys Clark a fu'n byw yn Florida am dros hanner can mlynedd ond cyn mynd â ni yno aeth â ni am dro i Israel cyn dod yn ôl adref i fyw yn ymyl y fan lle cafodd ei geni.

Diolchodd Thelma i bawb am noson ddifyr. Rhoddwyd gwobr Iwcus gan y rhai oedd yn gyfrifol am y baned ac enillwyd hi gan Eirlys Jones

Byddwn yn cyfarfod nesaf ar Chwefror 23 i dathlu Gŵyl Ddewi. Croeso i bawb gan gynnwys y Dysgwyr

Graen ar Gadeiriau'r Eisteddfod



Fel prosiect yn Adran Dylunio a Thechnoleg Ysgol Dyffryn Ogwen o dan gyfarwyddyd Richard Smith, pennaeth yr adran, bu nifer o'r disgyblion yn brysur yn glanhau a thrin tair cadair sy'n perthyn i Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.

Cadeiriau defodol yw'r tair, ac maent yn cael eu defnyddio'n flynyddol ar lwyfan yr eisteddfod yn ystod defod anrhydeddu bardd y Gadair, enillydd y Fedal Ryddiaith, ac enillydd Medal yr Ifanc. Mae i bob un o'r cadeiriau ei harddull a'i hanes ei hun.

Cadair ddiweddar yw un ohonynt, er cof am Dafydd Orwig, ac mae'r ddwy arall yn perthyn i ddegawd cyntaf y ganrif ddiwethaf. Un yw cadair Eisteddfod y Gymdeithas, Gerlan, yn 1908, a'r llall yw cadair Eisteddfod Gadeiriol a Choronog y Plant, Bethesda yn 1908 a sefydlwyd gan y Parch. Rhys J. Huws, y Cymro brwd a ddaeth yn weinidog Capel Bethesda yn 1905. Cyn symud i Ddyffryn Ogwen, roedd o wedi sefydlu Eisteddfod y Plant ym Methel yn ystod cyfnod ei weinidogaeth yno, ac mae'n fwy na phosibl bod llwyddiant ei eisteddfodau wedi dylanwadu ar benderfyniad Ifan ab Owen Edwards i gychwyn Eisteddfod yr Urdd yn 1929. Gyda mudiad yr Urdd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed eleni, mae'n bwysig ein bod ni'n cofio cyfraniad arloesol Rhys J. Huws i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Dymuna Pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch yn fawr i Alun Llwyd, Pennaeth yr Ysgol, a Richard Smith, Pennaeth yr Adran, am ymgymryd â'r trefniant, ac i'r disgyblion am eu gwaith rhagorol yn glanhau'r cadeiriau a'u trin efo olew arbennig. Mae'n dda eu gweld yn edrych mor raenus.

Rhes gefn o'r chwith: Ieuan Wyn, ysgrifennydd llên yr eisteddfod, Nathan Lambert, Daniel Roberts, Dion Jones, Kelsey Coburn, Mathew Evans, Siôn Carson, a Richard Smith, pennaeth yr adran.

Rhes flaen o'r chwith: Ellis Ogwen Jones, Shauna Prytherch, Iwan Thomas, Lucy Roberts a Gethin Williams.

Steve Eaves yn Neuadd Ogwen



"Noson wych!" Dyna'r ddau air oedd ar wefusau pawb wrth ymadael â Neuadd Ogwen nos Wener, 3 Chwefror. Roeddent wedi mwynhau swper a chân yng nghwmni Steve Eaves a'r band mewn awyrgylch arbennig o braf. Roedd Steve ar ei orau!

Diolch i Dilwyn a chriw Pesda Roc am drefnu mor dda.

Edrychir ymlaen rwan at y noson nesaf ar 2 Mawrth yng nghwmni Siân James.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Raymond Tugwell,
9 Ffordd Llanllechid
☎ 601077

Cofion

Anfonwn ein cofion at Glenna Bevan, Red Lion, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Hefyd at Averil Williams, Lôn Groes, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl.

Pen-blwydd

Dymuniadau gorau i Alison Jones, Royal Oak a ddathlodd ei phen-blwydd yn 50 mlwydd oed yn ystod y mis. Mae Alison am ddiolch am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth ddathlu'r achlysur.

Penblwydd Arbennig

Dathodd Valerie Thomas, Tan y Garth, ben-blwydd arbennig yn ystod y mis. Llongyfarchiadau Valerie!

Clwb yr Henoed

Ar 4 Ionawr fe ailgorodd y clwb wedi gwyliau'r Nadolig. Dan lywyddiaeth Mrs Ceinwen Hughes croesawyd yr aelodau'n ôl gan anfon eu cofion at nifer oedd wedi bod yn wael yn ddiweddar, yn enwedig Mrs Bet Hughes a Mrs Olwen Williams. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Betty Williams a ddangosodd hen luniau a phytiau o bapurau newydd yn ymwneud â hen gymeriadau'r ardal. Ar 11 Ionawr, cafwyd cyfle i groesawu criw o ferched o Dalybont. Dyma glwb sy'n cyfarfod bob yn aill ddydd Iau dan arweinyddiaeth Mrs Angharad Huws ac yn gwneud pob math o waith cwiltio. Dangoswyd pob math o enghrhefftau o'u gwaith, ac yn eu plith goruchuddion gwely, clustogau a bagiau.

Diolch

Dymuna Mrs Bet Jones, Tanybwllch ddiolch o galon i'w theulu, pobl yr ardal ac yn enwedig y postmon newydd, am yr help a gafodd wedi iddi gael codwm arall yn ei chartref.

Y Ganolfan

Fore Sadwrn, 28 Ionawr, cynhaliwyd Bore Coffi er budd y Ganolfan yn Neuadd Ogwen. Bu'r llynedd yn gyfnod anodd i'r Ganolfan yn Rachub, gyda bygythiadau i'w chau. Gwnaed ymdrech sylweddol gan y Pwyllgor i sicrhau llwyddiant y bore. O ganlyniad derbyniwyd nifer fawr o roddion a chyfraniadau at y stondinau. Mynychwyd yr achlysur gan nifer fawr o drigolion yr ardal, ffaith sy'n codi calonnau Pwyllgor y

Sgwâr Rachub yn 1916



Ganolfan yn fawr. O ganlyniad codwyd y swm anrhydeddus o £350 – y swm mwyaf i'r ganolfan ei godi erioed mewn bore coffi. Mae'n debyg mai noson fingo fydd yr achlysur nesaf i godi arian. Mae'r pwyllgor yn dal i chwilio am fwy o gymdeithasau neu ddigwyddiadau i ddefnyddio'r ganolfan. Cysylltwch â Godfrey Northam ar 600872 am fwy o wybodaeth.

Cyngerdd Eisteddfod yr Urdd
Trefnir Cyngerdd Mawreddog gan y Brifysgol ac mae tocynnau ar gael oddi wrth Raymond Tugwell. Bydd y cyngerdd yn cael ei gynnal yn Neuadd Pritchard Jones ar 2 Mawrth 2012. Yn cymryd rhan bydd Côr Meibion y Penrhyn a Chôr Meibion Bangor ynghyd â Chôr Neuadd Syr John Morris Jones, Dewi Ellis Jones, John Eifion, Casi Wyn, Band Porthaethwy, Parti Cydadrodd Friars, a Band Jás Ysgol Tryfan. Cysylltwch â Raymond i gael eich tocyn am y pris rhesymol iawn o £5.00.

Diolch

Dymuna Colin Rowlands ddiolch i bawb o'r teulu a'r ffrindiau am yr holl gardiau ac arian a dderbyniodd dros y Nadolig.

Bydd cefnder Colin, sef Kaine Rowlands, yn mynd i Affghanistan ar 22 Mawrth. Dymuniadau gorau iddo oddi wrth y teulu i gyd.



Dyma lun o Kaine wedi ei arlunio gan Colin.

Deunaw oed

Mae mab Colin Rowlands, sef Dale, wedi dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar 5 Chwefror. Pen-blwydd hapus iawn iddo oddi wrth y teulu oll.

Gwella

Da iawn gweld fod Julie Rowlands, 3 Trem y Garth yn gwella ar ôl treulio wythnos yn yr ysbyty yn dilyn damwain.

Dathlu Gŵyl Ddewi

Paned, Cacen a Chân

yng nghwmni
Plant Ysgol Sul Carmel,
Llanllechid
Dydd Iau
1 Mawrth
3.00 i 4.30 o'r gloch.
Tocyn £1.00
Croeso i bawb

Carmel Llanllechid

Te Bach Mis Chwefror

P'nawn Llun
20 Chwefror
2.30 tan 4.00 o'r gloch
Croeso i bawb

CAPEL CARMEL Gwasanaethau

Chwefror
19: Y Parch. W.R. Williams 2.00
26: Oedfa i'r teulu 10.30 y bore
26: Y Gweinidog am 5.00

Mawrth
04: Y Parch, Trefor Jones 5.00
11: Y Gweinidog 2.00 a 5.00
18: Y Parch D.C. Williams 5.00

Yr Ysgol Sul am 10.30 y.b.
Dwylo Pysur Nos Wener 6.30
Croeso Cynnes

Capel Bethel Trefn Gwasanaethau

Chwefror
19: Y Parch. John Pritchard
26: Y Parch. Dafydd Job

Mawrth
04: Y Parch. Merfyn Jones
11: Y Gweinidog
18: Y Parch Huw Pritchard

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

CAPEL CARMEL

Yn anffodus ni ymddangosodd yr adroddiad am wasanaethau'r Nadolig yn rhifyn y mis diwethaf, Dyma geisio gwneud iawn am hynny rwan.

Capel Carmel – Bu mis Rhagfyr unwaith eto yn brysur wrth inni baratoi at wasanaeth y Nadolig. 'Clychau'n Canu' oedd thema ein hoedfa eleni. Cafwyd darlenniadau o'r Beibl, perfformiwyd stori'r geni, canu carolau a dawnsio. Roedd yn oedfa fendithiol iawn i bawb yng nghwmni'r ifanc. Wedi'r gwaith caled mwynhaodd plant yr ysgol Sul barti gwisg ffansi, gyda Siôn Corn yn gwneud ei ymddangosiad blynyddol gydag anrhegion iddynt. Noson yng Ngahnnolfan Bowllo Deg Llandudno oedd gwobr aelodau'r Clwb Dwylo Pysur. Dros yr wythnosau diwethaf bu'r plant yn casglu arian at y Genhadaeth Fydeang a'r cyfanswm eleni oedd £280. Diolch i'r plant am gasglu ac i'r rhieni a ffrindiau am gefnogi'r achos.

Ar fore dydd Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth dan ofal y Parchedig Geraint Hughes. Canodd Charmaine, un o blant yr Ysgol Sul, yn hyfryd iawn. Gwnaethpwyd casgliad o £110, a gyflwynwyd at achos wardiau plant mewn ysbyty yn ardal dlawd Blantyre. Bu Karen Sullivan yn nyrso yno am rai blynyddoedd ac mae'n dal i gasglu arian mewn gwahanol ffyrdd.

Yr Ysgol Sul – Mae prysurdeb mawr yn ein plith y dyddiau yma wrth inni baratoi at ddathlu Gŵyl Ddewi, yn blant ac yn aelodau'r Clwb Dwylo Pysur. Mae elw "Paned, Cacen a Chân" i'w gyflwyno i Mali Parry-Owen, Rhiwlas, sy'n mynd i weithio'n wirfoddol ymhlith rhai o dlodion Honduras. Bydd yn aros yno am flwyddyn dan gynllun 'Project Trust'.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch Gwyneth Morris, Gwaen Gwiall, ar ddod yn nain unwaith eto. Ganed merch fach i'w mab Dafydd, a'i wraig, Eirian, sy'n byw yn Bronnydd Uchaf. Rydym yn siwr fod pawb wedi gwirioni efo'r fechan, yn enwedig ei dwy chwaer fawr. Ein dymuniadau gorau i chi i gyd fel teulu

Geni

Llongyfarchiadau mawr i Arwel ac Angela Phillips, Tan Treflys, ar enedigaeth mab bychan, Aran Owen. Ganed Aran ar y 12fed o Ionawr. Pob hwy! i chi fel teulu!

Dyweddïo

Llongyfarchaiadu calonnog i Meleri Môn Roberts, merch Idris a Rhian Roberts, 26 Ciltrefnus, ar ei dyweddïad gyda Kevin Ramos Furst o'r Swistir. Cariad mawr i'r ddau oddi wrth y teulu.

Dod yn nain a thaid

Rydym yn llongyfarch Hefin ac Elaine Hughes, Stryd Hir, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed mab bychan, Ifan Cai, i'w mab, Dylan, a'i gyfar, Siân sy'n byw yn Erw Las. Rydym, hefyd, yn llongyfarch Robin ac Ann Hughes, Freithwen Isaf, ar ddod yn hen daid a hen nain. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu!

Aelod o gôr

Mae Math Owen, Ciltwillan, wedi cael ei ddewis i fod yn aelod o gôr Only Kids Aloud. Mae hyn yn gryn gamp, ac yn anrhydedd mawr. Da iawn, chdi, Math! Fe fyddi'n brysur iawn rwan. Pob hwyl iti efo'r canu!

Ar y teledu

Bu'r grŵp lleol Vintage Magpie ar y teledu yn ddiweddar yn cymryd rhan ar y rhaglen Y Lle. Mae dau o bobl ifanc yr ardal – Elin Cain a Callum O'Marah – yn aelodau o'r grŵp. Da iawn, chi, a phob dymuniad da a phob llwyddiant i'r grŵp!

Y Caban

Mae dosbarth Zwmba wythnosol wedi cychwyn yn Y Caban, ac mae'n profi'n hynod o lwyddiannus, gyda nifer helaeth yn dod yno. Braf yw gweld hynny, a braf hefyd yw gweld fod y Caban yn brysur y dyddiau hyn. Os ydych chi am ddefnyddio'r Caban ar gyfer cyfarfod o unrhyw gymdeithas, yna cysylltwch gyda Caren Brown. Cofiwch am y Bingo Pasg sy'n cael ei gynnal yn y Caban ar 16 Mawrth am 6.30. Mae hwn yn un o weithgareddau codi arian y Caban, felly cofiwch gefnogi. Mae'n hynod o gostus i gynnal canolfan fel hon, ac mae gweithgareddau codi arian yn hanfodol i dalu'r biliau.

Cylch Meithrin Gerlan Diolch

Diolch yn fawr i Chris a Maureen a chwsmeriaid "Y Siôr" am eu cefnogaeth ar y "Noson Cwis a Cyri", ac am y rhodd hael o £150 a dderbyniwyd ganddynt. Diolch hefyd i'r staff, pwyllgor a rhieni am eich cefnogaeth a'ch gwaith caled. Gwnaed elw o £266 tuag at adnoddau i'r plant.

Cylch Meithrin Gerlan

Dydd Llun i Ddydd Gwener
9.00 i 12.30
2 i 4 oed
Cysylltwch â ni ar
07768405874

**Tŷ Tair Llofft
i'w Osod
yn Gerlan**

Ffoniwch 07810 874882
am ragor o fanylion,
neu gallwch ymweld â
<http://strydgoronwy.tumblr.com>

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda ☎
600965

Llongyfarchiadau i Roy Jones, mab Doris a Gwilym o Gilfodan ar dderbyn yr anrhydedd o M.B.E. gan y Frenhines y flwyddyn hon. Mae Roy yn byw yn Wrecsam ers blynyddoedd bellach, ac wedi bod yn gweithio i'r Bwrdd Trydan (Scottish Power erbyn hyn) ers iddo adael yr ysgol. Derbyniodd yr anrhydedd hon am ei waith dros bobl ifanc Cymru.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr. Bob Griffiths, 13 Dolhelyg, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed ar ddydd Iau, 19 Ionawr.

Deallwn hefyd fod Mr. a Mrs. Bob Griffiths, wedi dathlu 62 mlynedd o fywyd priodasol ar 7 Ionawr. Anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau gorau atoch eich dau.

Ysbyty

Mae Joan Fox, 63 Bro Emrys, wedi cael dod adref yn dilyn rhai wythnosau yn Ysbyty Gwynedd a'r Eryri. Da deall ei bod yn gwella'n dda. Mae Kobie, 11 Dolhelyg, yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda iddi a hefyd i Miss Olwen Thomas, Dolhelyg, sydd ddim wedi bod yn dda.

Ar y Teledu

Braf oedd gweld William a Gwyneth Roberts, Fferm Cochwillan, ar S4C yn ddiweddar. Roedd y camerau wedi mynd i ffilmio "Brecwast yn Fferm Ty'n

Capel Bethlehem**Trefn Gwasanaethau**

Chwefror 19 : Gweinidog ;
Chwefror 26 : Parchg. Reuben Roberts ;
Mawrth 4 : Gweinidog ;
Mawrth 11 : Parchg. Harri Parri, Caernarfon ;
Mawrth 18 : Gweinidog ;
Mawrth 25 : Parchg. Pryderi Llwyd Jones, Cricieth.

Oedfaon am 2.00.
Croeso cynnes i bawb.

Clod i Waith Meithrinfa Ogwen

Llongyfarchiadau calonnog i bawb ym Meithrinfa Ogwen, Carneddi, ar lwyddo i gyrraedd "Safon Buddsoddwyr mewn Pobl". Cydnabyddiaeth yw hyn, a roddir gan Gomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r Deyrnas Unedig. Bu'r Feithrinfa yn gwasanaethu teuluoedd yr ardal ers 11 mlynedd bellach, ac yn y llun gwelir y perchennog, Delyth Jones (ar y dde) a'r dirprwy (Julie Williams) y ddwy wedi bod yno o'r cychwyn.

Eglwys Maes y Groes

Ar Sul olaf y mis cynhaliwyd gwasanaeth undebol rhwng y tair Eglwys dan arweiniad y ficer, y Parchedig John Mathews, gyda Geraint Gill yn cyfeilio. Cymeryd rhan gan aelodau o'r eglwysi a chafwyd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd yr oedfa.

Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth sydyn mam Hefina, sef Mrs Eirlys Williams o Lannerch-y-medd ar 24 Ionawr yn 91 oed, Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Ifan yn Llannerch-y-medd dan arweiniad y Parchedig Emlyn Richards, Cemaes a darllenwyd rhan o'r Beibl gan ein ficer, y Parchedig John Mathews. Fe'i claddwyd ym mynwent Capel y Gad yn Bodffordd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at Hefina a'r teulu yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Gracie Griffiths, Llwyn y Wern ar ddod yn hen nain unwaith eto. Ganwyd Lowri Grace i Emily, merch Gareth. Dymuniadau gorau iddynt.

Da deall fod Val Withers, Cae Bach, gartref yn gwella'n foddhaol yn dilyn triniaeth ar ei llygaid yn Ysbyty Gwynedd.

Hendre" ar gyfer y rhaglen "Ffermio".

Ar wahan i sglaffio'r bacwn a'r sosej fe gyfrannodd Wil at y rhaglen drwy sgwrsio arni. Deallwn bod arian wedi ei godi tuag at Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012 o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.

Capel Bethlehem**Talybont****Y Gymdeithas Lenyddol**

Brethyn Cartref oedd teitl y noson a gynhaliwyd yn y festri ar nos Fercher, 11 Ionawr, pryd y daeth nifer o aelodau'r tair eglwys ag eitemau amrywiol i'w dangos; eitemau oedd yn golygu rhywbeth iddynt ac yn annwyl a gwerthfawr yn eu golwg. Treuliwyd noson hynod o ddiffr yn gwrando ar hanesion y gwahanol "drysorau" ac yn canu ambell i gân dan arweiniad Neville Hughes a'i gitâr cyn mwynhau paned a sgwrs ar y diwedd.

Nant Ffrancon**Cneifio**

Dymuniadau gorau i Mr Elfed Jackson, Braich Tŷ Du wrth iddo fynd i Seland Newydd i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth gneifio.

Profedigaeth

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr John Morris a'r teulu, Dolawen, yn eu profedigaeth fawr o golli brawd yn Llanberis, sef y diweddar Geraint Morris, yn 40 oed.

Capel Nant y Benglog**Trefn Gwasanaethau**

Chwefror
19 : Mr Arwel Roberts;
26 Parch. Iwan Ll. Jones

Mawrth
04 I'w gyhoeddi
11 Y Parch Cledwyn Williams
18 Harri O. Jones
25 Parch. Dafydd Ll. Hughes.

Oedfaon am 2.00.
Croeso cynnes i bawb.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Gwaeledd

Dymunwn wellhad buan i Mr John Evans, Llys y Gwynt, Llandygái, sydd wedi cael dau ben-glin newydd yn Ysbyty Maelor, Wrecsam ar 23 Ionawr. Cafodd ddod adref ddydd Sadwrn, 28 Ionawr ac y mae mewn tipyn o boen. Mae meddwl cael gwneud un ben-glin yn ddigon heb sôn am wneud y ddau yr adeg. Rydych yn ddewr iawn John.

Gobeithio fod Mrs Cassie Tindall, Tŷ Mawr, Pentref Llandygái yn gwella wedi iddi syrthio yn y tŷ ac anafu ei choes. Hyderwn y cawn eich gweld cyn bo hir yn mynd am dro o gwmpas y pentref gyda Roy.

Anfonwn ein cofion anwylyf at Ernie a Nerys Coleman, Ieuan a Ceinwen Evans, Jim a Beryl Hughes, Bobby Jones, Gwen Moresley, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams – Brysiwch Wella!

Balch iawn oeddem o glywed fod Mrs Olwen Lytham wedi cael dod adref o'r ysbyty ar ôl iddi dorri ei choes – cymerwch ofal Mrs Lytham.

Pen-blwydd arbennig

Bydd Cai Jones (4 Pentre Llandygái gynt) yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn 18 mlwydd oed ar 22 Chwefror. Dymuniadau gorau iti Cai, a gobeithio y cei di amser da a diwrnod gwith ei gofio.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Mrs Hefina Watts, Cysgod y Dderwen, Ffordd Abercaseg, Bethesda a'r teulu yn eu galar o golli mam Hefina yn ddiweddar. Yr un adeg y llynedd bu farw Phil Watts, gŵr Hefina ar ôl gwaeledd blin.

Mae pawb yn Eglwys Sant Tegai yn meddwl am y teulu i gyd ar adeg digon trist yn eu bywydau.

Yn yr Ysbyty

Cafodd Mr Bobby Jones, Bryn Awel, Llandygái lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sul 29 Ionawr – cafodd glun newydd y tro hwn. Dymunwn wellhad buan i chwi Bobby, ac y byddwch yn gallu dod adref i blith eich teulu yn y dyfodol agos.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Cofiwn y mis hwn eto am ein cyfeillion sy'n wael yn eu cartrefi: Mrs Jane Couch, Mrs Beryl Edwards, Mr Harry Gross a Mrs Liz Jones. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi oll. Roeddem yn falch o weld Gwynne a Ceri Edwards yn yr Eglwys ddechrau'r mis, a Gwynne yn teimlo dipyn yn well.

Diolchiadau

Carem ddiolch i'r Barchedig Jennie Hood, Glanogwen am ddod atom fore dydd Mercher, 18 Ionawr (yn absenoldeb y Parchedig John Mathews) a gwasanaethu'r cymun i ni. Cawsom sgwrs â hi ar ôl y gwasanaeth a mwynhau paned o goffi a bisgedi – diolch yn fawr Muriel. Diolch i'r Athro Ian Russel Hefyd am gymryd Gwasanaeth y Foreol Weddi ddydd Sul, 22 Ionawr. Er bod y tywydd yn oer ac yn wlyb roedd y ffyddloniaid yno.

Pen-blwydd

Fore Sul, 8 Ionawr roedd gennym un eneth fach hyfryd iawn oedd yn dathlu ei phen-blwydd cyntaf. Ie, dim ond un flwydd oed oedd Hannah Louise. Gofynnodd y ficer inni ganu "Pen-blwydd hapus" iddi ac fe wnaed hynny yn llawen. Mae'n dod i'r Eglwys yn selog yng nghwmni Nain, Mam a Dad bron bob bore Sul ac yn ferch fach dda iawn. Dal ati i ddod Hannah Louise.

Y Pumed Sul

Roedd y tair eglwys wedi dod ynghyd er gwaethaf y glaw, ar fore Sul, 29 Ionawr, a chafwyd oedfa dda gyda digon o ganu. Y Parchedig John Mathews oedd yn cymryd y gwasanaeth a Mr Geraint Gill wrth yr organ. Diolch yn fawr am eich croeso cynnes. Roeddem yn falch o gael sgwrs, a mwynhau paned a bisgedi cyn ffarwelio dros dro.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Ionawr

1af Rhif 25

Helen Bradley, Rhiwlas

Ail Rhif 23

Ann Williams, Glasinfryn.

3ydd Rhif 41

Phylis Jones, Rhiwlas.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at David, Anna a Dawn yn eu profedigaeth o golli chwaer, chwaer-yng-nghyfraith a mobryb, y ddiweddar Gwen Williams, Bangor, yn frawyachus o sydyn. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr.

Gwellhad

Dymuniadau gorau i Mrs Margaret Jones, Rhos Penrhyn, Waun Pentir, am iachad buan

wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd dros y Nadolig. Braf yw clywed eich bod bellach adref dan ofalaeth dyner eich teulu. Brysiwch wella Anti Maggie.

Bingo

Dydd Sadwrn, 21 Ionawr yn y ganolfan, Glasinfryn, cafwyd prynhawn o Fingo llwyddiannus gyda llawer o hwyl. Hoffwn ddiolch i Mary am drefnu'r prynhawn a galw'r rhifau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Te Crempog

Prynhawn Mercher, 22 Chwefror am 2.00 o'r gloch yng Nghanolfan Glasinfryn cynhelir te crempog. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni am brynhawn o wledda.

Cawl a Chân

Yn Eglwys Sant Cedol, nos Wener 16 Mawrth am 7.00 o'r gloch, gyda Chôr Oriana yn diddannu. Croeso cynnes i bawb. maylion pellach i ddilyn.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Marwolaeth

Ar 6 Ionawr bu farw Mrs Betty Williams, 1 Bro Rhiwen, yn sydyn ond yn dawel yn Ysbyty Gwynedd lle cafodd ofal rhagorol. Roedd yn fam, nain a chwaer amhrisiadwy. Cynhaliwyd yr angladd brynhawn dydd Mercher 11 Ionawr yn Eglwys Sant Cedol, Pentir, gyda'r Barchedig Dr Carol Roberts yn gwasanaethu ac yn talu teyrnged cynnes a theimladwy fel ffrind oes i'r teulu. Diolch o galon iddi ac i'r Barchedig Nia Williams. Rhoddwyd Bet i orffwys gyda'i gŵr Hywel a'i hŵyr Stephen yn ôl ei dymuniad. Diolch yn fawr hefyd i John P. Turner, Rhyd y Groes am ei ofal a'i drefniadau caredig a gofalus.

Colli Cymwynaswraig

Bydd pentref Rhiwlas yn llawer tlotach o golli Betty Williams, 1 Bro Rhiwen. Roedd Eglwys Sant Cedol yn orlawn ar gyfer gwasanaeth ei hangladd. Prawf o boblogrwydd Betty ymhlith ei chymdogion a'i ffrindiau. Cofiwn amdani fel un a fu'n falch iawn o'i phriod a'i phlant. Yn barod iawn ei chymwynas, roedd ei pharodrwydd i helpu eraill yn brofiad pesonol i lawer un yn yr ardal. Roedd Bet yn un barod iawn ei sgwrs a'i gwên a chofiwn yn annwyl iawn amdani. Cydymdeimlwn yn gywir gyda'i phlant a'u teuluoedd a gyda holl gysylltiadau'r teulu.

Cydnabod cydymdeimlad

Dymuna Diane, Sharon, Mark, Robin a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o

gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Mrs Betty Williams.

Hefyd diolchwn yn fawr iawn am y rhoddion er cof amdani, a rannwyd rhwng Ward Cybi a Meddygfa y Felinheli. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuno Gwellhad

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at y rhai a fu'n wael yn ddiweddar:

Cafodd Alan C. Pope, 5 Bron y Waun driniaeth i'w ben-glin yn Ysbyty Gwynedd a deallwn ei fod yn gwella.

Hefyd treuliodd Beryl Griffith, Castell, gyfnod yn yr Ysbyty wedi iddi gael codwm yn ei chartref.

Disgyn yn ei chartref hefyd a fu'n gyfrifol am i Heulwen Evans, Tegfryn dreulio pythefnos yn ei gwely ar ôl cleisio'n ddrwg. Yn ffodus nid oedd asgwrn wedi torri.

Y mae Valerie Miserotii Valdor hefyd yn ei chartref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn ffodus ein bod yn byw o fewn cyrraedd hwylus i'r ysbyty.

Llwyddiant yn Llydaw

Mewn gŵyl o'r enw Prizón, a gynhelir yn flynyddol yn Llydaw, anrhydeddir y rhai a gyfrannodd at ddiwylliant Llydaw yn ystod y flwyddyn.



Cafodd Lleuven Steffan, sydd wedi cartrefu yn Llydaw erbyn hyn, ei henwebu ar gyfer dau gategori, sef 'Siaradwr Llydaweg Gorau'r Flwyddyn' a 'CD Gorau'r Flwyddyn'. Lleuven enillodd y categori olaf gyda'i CD diweddaraf. Mae cyfran helaeth o'r caneuon arni yn yr iaith Gymraeg a'r gweddill mewn Llydaweg.

Er na ddaeth i'r brig yn y categori cyntaf roedd cael ei henwebu yn anrhydedd ynddo'i hun. Llongyfarchiadau iddi. Mae'n bleser clywed am ferch o Riwlas yn cael y fath lwyddiant.

Gaeaf anwadal

Daeth John Jones o Ystad Caeau Gleision o hyd i loyn byw yn y gegin ar 22 Ionawr, a hynny a arweiniodd at drafodaeth ar raglen natur Radio Cymru, *Galwad Cynnar*, y bore Sadwrn canlynol. Eglurhad Bethan Wyn Jones oedd bod gloynnod byw yn un o'r creaduriaid sy'n cysgu dros y gaeaf, ond os yw'r tywydd yn cynhesu mae ambell un yn debygol o ddeffro. Ei chyingor oedd ei rhoi yn rhywle oer.

Parodd y tywydd cymharol gynnes a gafwyd ym mis Tachwedd a Rhagfyr i sawl planhigyn flodeuo yn gynamserol ac felly lleihau'r gobaiith am flodau yn y gwanwyn.

Glasiŷfryn Caerhun

Marred Glynn Jones

2 Stryd Fawr, Glasiŷfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Bingo

Cynhelir noson Bingo yn y Ganolfan yng Nglasiŷfryn nos Wener, 9 Mawrth am 7.30 yr hwyr. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Glwb Epilepsi Ysbyty Gwynedd.

Profedigaethau

Cydymdeimlwn â Mrs Pat Jones, Eluned a Llinos, Fferm Tynyffridd, Waen Wen, ar farwolaeth Mrs Gwyneth Thomas, Penmaenmawr, mam Pat, yn 96 oed.

Ar 19 Ionawr yn frawychus o sydyn, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Gwenda Wyn Williams, 22 Orme Road, Bangor yn 64 oed. Roedd Gwenda yn enedigol o Lasinfryn, wedi mynychu'r ysgol a'r eglwys yno. Cydymdeimlwn a'i gŵr Eifion, y merched, Nia ac Ellen, ei brawd David, 4 Bro Infryn, Bet ei chwaer ac Elfed ei brawd a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Diolch

Dymuna Pat Jones, Eluned a Llinos a'r teulu, Tyn y Ffridd, Waen Wen, ddiolch yn ddiffuant i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn a negeseuon o gydymdeimlad yn eu profedigaeth ar golli mam Pat, Gwyneth Thomas o Benmaenmawr.

Yn yr Ysbyty

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Gwyneth Jones, Y Bwthyn, Waen Wen, sydd yn parhau yn glaf yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella !

Clwb Cant y Ganolfan

Enillwyr Ionawr yw:
£20 - 141 - Elfed Roberts
£10 - 10 - Ken Hughes
£ 5 - 47 - Beryl Williams
£ 5 - 36 - Pat Jones

Sefydliad y Merched

Dan lywyddiaeth Mrs Ingrid Farrer edrychwn ymlaen at weithgareddau'r flwyddyn newydd. Braff oedd cael dechrau ym mis Ionawr yng nghwmni ffrindiau. Cafwyd croeso cynnes gan ein Llywydd, a da oedd gweld Dr Ann Illsley yn ein mysg ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Croesawyd Mrs Beryl Williams ar ôl ei phrofedigaeth.

Llongyfarchwyd Sarah Flynn ar ei gwaith gwirfoddol ar Ddydd Nadolig yn y ganolfan *Taro i Mewn* ym Mangor. Mae Sarah yn ymwneud llawer â'r ganolfan ac yn rhoi o'i hamser i helpu rhai llai ffodus na ni ein hunain.

Soniwyd hefyd am yr arddangosfa Coed Nadolig a fu yn y Gadeirlan yn ystod Mis Rhagfyr. Roedd pob un wedi ei hardduno ac yn edrych yn hyfryd.

Wedi trafod materion cyflwynwyd y gŵr gwadd, Mr Dafydd Lloyd, a fu ar daith gerdded yn Periw yn y flwyddyn 2009. 'Roedd mewn grŵp o 10 yn cerdded yr "Llwybr yr Inca" i godi arian at gancr y coluddyn (bowel cancer). Mwynhawyd lluniau ardderchog o'r daith 10 diwrnod. Mi wnaethon nhw hedfan o Lundain i Fadrid, i Lima ac yna i Cuzo lle cychwynnodd y daith gerdded.

'Roeddent yn cerdded rhwng 6 a 10 awr bob dydd yn dilyn llwybrau peryglus o gul ac yn gwersylla bob nos mewn dyffryn. Llwyddodd Dafydd i godi £7,000 cyn cychwyn i Beriw ond ar ddiwedd y daith codwyd swm o £67,000.

Ardderchog! Rhaid edmygu pobl fel Dafydd. Diolchwyd iddo gan Linda Irons a pharatowyd paned gan Kath Jones a Mair Griffiths.

Cofiwch yr ail ddydd Mercher ymhob mis os oes gennych ddi-ddordeb i ymuno â ni. Rydym yn cyfarfod yn y Ganolfan yng Nglasiŷfryn.

Blwyddyn newydd dda i bawb.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

Cogydd o fri

Llongyfarchiadau i Hefin Roberts, mab Derek a Glenys Roberts, Pen y Braich, Braich Talog, Tregarth am ei lwyddiant ysgubol yng nghystadleuaeth *'Britain's Best Dish'* ar y teledu ym Mis Rhagfyr. Hefin oedd y Cymro olaf ar ôl yn y gystadleuaeth. Cryn gamp yn wir. Da iawn Hefin.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Darren, mab Derek a Glenys Pen y Braich ar ei ddyweddiad â Lynette Oliver, Bwyty Holland Arms, Bae Colwyn. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Yn yr Ysbyty

Da yw clywed fod Alun Owen, Craig y Pandy yn gwella wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ystod y Nadolig.

Bu Mrs Edith Hughes, 5 Erw Faen yn Ysbyty Gwynedd yn ystod cyfnod y Nadolig. Mae'n gwella bellach.

Bu ei ŵyr Darryl Hughes hefyd yn yr ysbyty yn dilyn damwain wrth chwarae rygbi. Gobeithio eich bod chithau'n gwella Darryl.

Blaenoriaid Newydd Shiloh



John Roberts, Wynne Roberts (blaenor newydd) Y Parchedig Gwynfor Williams, Mrs Eirwen Williams (blaenor newydd) Mrs Eirian Rowlinson (blaenor newydd) Mrs Edith Hughes. Yn absennol o'r llun mae Trefor Owen a Mrs Gwenda Davies.

CAPEL SHILOH

Dyma gyhoeddiadau Shiloh am yr wythnosau nesaf. Cofiwch am yr Ysgol Sul sy'n cyfarfod yn Festri Shiloh bob bore Sul am 10.30 ac oedfaon yr hwyr am 5.30

Chwefror 12
Parchedig Philip Barnett, Deganwy
Chwefror 19
Parch. Harri Owain Jones, Ll'pwl
Chwefror 26
Diacon Stephen Roe, Porthaethwy
Mawrth 4
Parchedig Gwynfor Williams
Mawrth 11
Parchedig John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin

Gwellhad llwyr a buan i ddwy o'n haelodau sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, sef Mrs Edith Hughes, Erw Faen a Mrs Noreen Jones, Bethesda.

Croeso cynnes adre wedi cyfnod yn Auckland, Seland Newydd i Mr Wynne Roberts, Bryn Difyr. Treuliodd Wynne y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yng nghwmni ei fab Paul yn Seland Newydd. Bu sedd Wynne yn Shiloh yn wag iawn ac mae'n dda cael ei gwmni unwaith eto. Gobeithio i chi ddod a chydig o haul pendraw'r byd yn ôl hefo chi !

Profedigaeth

Anfonwn ein cydymdeimlad at Euronwy a Gareth Jones, Craig y Pandy yn eu profedigaeth fel teulu o golli brawd i Euronwy, sef Deiniol Wyn Owen, 2 Glanogwen, Bethesda ar Ionawr 23. Roedd Deiniol hefyd yn frawd yng nghyfraith i Herbert Griffiths, Bro Syr Ifor, Tregarth.

Diolch

Dymuna Dafydd Francis Jones, Raymond Dexter a'r teulu ddiolch o galon i bawb, yn deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad ar golli priod a mam annwyl iawn, sef Nesta Jones 37 Ffordd Tanrhiw.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaeth Dydd Gŵyl Ddewi
Cynhelir gwasanaeth i ddathlu ein nawddsant ar 1 Mawrth yn yr eglwys am 10.30yb gyda chinio i ddilyn

Y Garawys

Yn ystod y Garawys bydd cinio ar gael yn yr eglwys o 12.00 - 2.00yp. Cynhelir y ciniawau ar ddydd Iau, 8, 15, 22 a 29 Mawrth

Clwb Cant Y Gelli – Ionawr

£20 - 78 - Oscar Jones
£10 - 94 - Lynette Thomas
£10 - 21 - Sulwen Roberts
£5 - 121 - Eirwen Williams.

Cynhelir

Te Crempog

**Yn Eglwys y Santes Fair
Tregarth**

**21 Chwefror o 2.00 - 4.00 yp.
Mynediad £2.00.**

Yn Eisiau

Mae cwprwl ifanc lleol eisiau **Tŷ neu Fflat i'w Rentu** yn ardal Llanllechid neu Dregarth. Cysylltwch â Gavin Pritchard ar 01248 601266 neu ar y ffôn symudol 07526850432

Darn Bach o Hanes

Ar y rhaglen 'deledu 'Darn Bach o Hanes' bu Dewi Prysor y cyflwynydd yn Nhyddyn Dicwm, Tregarth, yn gweld y Lle Tân a'r llechen gerfiedig arbennig iawn sydd yno a chafwyd peth o'i hanes gan Mrs Eirwen Williams. Difyr dros ben.

Parhad dros y dudalen

Llwyddiant ym Myd y Ffilmiau



Mae'n bleser cael llongyfarch Joshua Williams, mab Gerallt ac Andrea Williams, Ffordd Tanrhiw, Tregarth ar ei llwyddiant ef a dau o'i ffrindiau o Fynydd Llandygái, sef Cai Dickinson a Moi Nicholas yng Ngŵyl Ffilm Pics yn y Galeri, Caernarfon. Daeth eu ffilm fer 'Yr Arf Dirgel' yn drydydd yn oedran Ysgolion Uwchradd. Heb gymorth oedolyn bu'r tri yn brysur yn y sied yn sgwennu, ffilmio a chynhyrchu'r ffilm gan greu gwaith safonol iawn ac un y mwynhaodd y gynulleidfa yn fawr. Ewch ar wefan Pics 2012 ac fe gewch gyfle i weld eu gwaith. Ardderchog hogia !

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Cafwyd cwmni Richard Wyn Hughes o ardal Dyffryn Nantlle yn y gangen Nos Lun Chwefror 9 a rhoddwyd croeso cynnes iddo gan Alwenna Puw ar ran y gangen.

Mae Richard a'r teulu wedi bod yn gyfrifol am greu gwinllan newydd yn Nyffryn Nantlle sef Gwinllan Cae Du. Mae'r teulu ynghyd â nifer o ffrindiau a chymdogion wedi plannu amrywiaeth o winwydd a choed afalau sy'n cynnwys Coed Afalau Enlli ar wyth erw o dir ar lethrau deheuol fferm Cae Du, ger Penygroes.

Dyn Camera wrth ei alwedigaeth yw Richard ond bu'n freuddwyd ganddo ers blynyddoedd i greu gwinllan ac i wneud gwinoedd amrywiol yn ogystal â sudd afal llonydd a pefriog. Bu'r teulu yn ddigon ffodus i fedru prynu fferm yn agos iawn at y man lle magwyd Richard ac o'r diwedd mae'n gallu gwireddu ei freuddwyd.

Drwy gyfrwng lluniau a sgwrs disgrifiodd fel yr aeth ati i greu y winllan yn ogystal â sut yr aethpwyd at i ddylunio'r slogan ac i benderfynu pa fath o boteli i'w defnyddio i farchnata'r cynnyrch.

Yn ystod y noson cafwyd cyfle i flasau Sudd Afal pefriog a llonydd Pant Du ac roedd pawb wrth eu bodd gyda'r cynnyrch. Diolchwyd i Richard gan Mary Edwards a gwnaed y baned gan Jên, Iona Rhys a Gwenda.

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon



CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Dathlu'r Deunaw

Penblwydd hapus Leia Davies yn 18 oed. Pob dymuniad da a llawer o gariad gan Mam, Lois a Lauren.

Pen-blwydd hapus Leia '18' gan Nain a Taid.

Penblwydd Leia 18 gan Kevin, Nerys a Llŷr.

Pen-blwydd Hapus Leia 18 gan Sheila, Gwynant, Dion, Siôn a Llion.

Clwb y Mynydd

Ar 22 Chwefror (dydd Mercher am 2.00 o'r gloch) bydd rhai o blant Ysgol Bodfeurig yn ymuno â ni. Edrychwn ymlaen at brynawn difyr gyda llawer o hen atgofion.

Salwch

Mae llawer yn y pentref heb fod yn dda ar hyn o bryd. Cofion gorau atoch a dymunwn adferiad buan i chi.

Diolch

Dymuna Lynda Owen ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch i ffrindiau a'r teulu.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Gwasanaethau'r Sul

19 Chwefror 9.45 Boreol Weddi
26 Chwefror 9.45 Cymun Sanctaidd
04 Mawrth 9.45 Gwasanaeth Teuluol
11 Mawrth 9.45 Cymun Teuluol
18 Mawrth 9.45 Sul y Fam, Boreol Weddi.

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn yr Eglwys nos Fawrth, 21 Chwefror yn y Noson Gremopogau. Crempog a phaned i bawb!

Gan ddechrau nos Fercher, 22 Chwefror am 7.00 o'r gloch, cynhelir cyfarfod cyntaf Cwrs y Grawys eleni, ar y cyd â phlwyfi Llandygái, Talybont a Thregarth, yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth (cynhelir pob cyfarfod eleni yn Nhregarth).

Cynhelir Gorsafoedd y Groes eto eleni ar y cyd â'r Eglwys Babyddol, yn ystod y Grawys. Cynhelir y cyfarfod cyntaf nos Fawrth 28 Chwefror am 7.00 o'r gloch yn yr Eglwys Babyddol, Bethesda.

Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Cynhelir y Ffair Basg eleni brynawn Sadwrn, 31 Mawrth am 2.00 o'r gloch. Bydd amrywiaeth o stondinau ac, wrth gwrs, paned a chacen ar gael. Cofiwch alw!

Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen 9 Mehefin 2012

Cystadlaethau Gwaith Llaw

- | | |
|---|---|
| 57. Dilledyn wedi ei wau â llaw (edafedd dwbl) | 64. Eitem yn dangos pwyth croes (agored) |
| 58. Dilledyn i fabi. wedi ei weu â llaw (edafedd 4ply) | 65. Unrhyw eitem yn dangos gwaith applique |
| 59. Eitem wedi ei wau â llaw (edafedd dwbl) | 66. Unrhyw eitem wedi ei wnio |
| 60. Gorchudd tebot wedi ei wau â llaw | 67. Dilledyn wedi ei wnio i oedolyn |
| 61. Eitem yn dangos clytwaith | 68. Decoupage |
| 62. Eitem yn dangos pwyth croes (eich cynllun eich hun) | 69. Eitem yn dangos unrhyw grefft (nodwydd yn unig) ac eithro'r rhai a enwyd yn y rhaglen uchod |
| 63. Cerdyn cyfarch y sioe yn 40 oed | 70. Eitem yn dangos unrhyw gerdd gan fardd o'r ardal. |

Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon



CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes
Ffarwel y Milwr

RWY'N siŵr bod llawer o ddarlennwyr Llais Ogwan â diddordeb Ryn olrhain hanes eu teulu ond y gân yn aml ydi 'Biti na f'aswn i wedi holi 'nhad neu mam, taid neu nain, am eu perthnasau nhw a gofyn iddyn nhw dd'eud pwy oedd pwy yn y teulu'. Difaru'n rhy hwyr a cholli'r ras fu hi yn hanes sawl un ohonon ni a cholli cyfoeth o wybodaeth am ein cefndir a'n llinach o'r herwydd.

Teulu Hendyrpeg

Weithiau, fodd bynnag, gallwn fod yn lwcus, fel sydd wedi digwydd i mi. Roedd mam yn un dda iawn am adrodd straeon am y teulu a chofiaf un stori y byddai hi'n ei hadrodd yn aml iawn, sef hanes 'Teulu Hendyrpeg'. Yr hyn a roes bleser mawr iddi oedd fy mod innau wedi cymryd digon o ddiddordeb i fynd ati i geisio llenwi ambell fwch yn yr hyn a gofiai neu a wyddai hi.

Ei thaid, ar ochr ei thad, oedd William Jones, Tŷ Mawr, Penygroes, Tregarth, a aned ar Fawrth 23, 1855. Priododd â Margaret Moses, a aned ar Fawrth 16, 1861, a threuliasant eu bywyd priodasol yn Bron Ogwen, Hendyrpeg, Roedd sôn bod gan Margiad Moses (fel y gelwid hi) lais hyfryd iawn pan oedd yn ifanc ac arferai gystadlu mewn eisteddfodau a chymryd rhan mewn cyngherddau amrywiol. Chwarelwr yn Chwarel y Penrhyn oedd 'William Jones, Hendyrpeg' fel yr adwaenid fy hen-daid. Cafodd William a Margiad bump o blant: William Hugh (a fu farw ar Hydref 23, 1886, yn flwydd a naw mis oed), Joni (fy nhaid), Sarah Margaret, Elizabeth Elin a William Moses. A chyda William Moses yr ydwr i am aros am ychydig.

William Moses Jones



Roedd gan mam feddwl y byd o William Moses, er mai dim ond cof plentyn oedd ganddi amdano, a chanddi un atgof syml yn arbennig, sef iddo'i chodi yn ei freichiau pan oedd yn hogan fach a rhoi sylw mawr iddi pan oedd adref ar lif o'r fyddin. Trysorai lun a dynnwyd ohono yn ei lifrai milwrol a châl le o barch ar y seidbord yn ein cartref ym Mraichmelyn ar hyd y blynyddoedd; bellach

mae iddo le ar un mor barchus ar y dresel yn Bryn Ogwen. Ganwyd William Moses ar Ionawr 25 1893. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys St Ann, fel ei rieni, ac roedd yn perthyn i Gôr yr Eglwys. Ymatebodd i'r ymgyrch recriwtio a oedd ar droed yn Nyffryn Ogwen ac ymunodd â'r fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Y ffarwel olaf

Yn ystod y misoedd cyntaf, cafodd William Moses ddod adref am egwyl unwaith neu ddwy ond roedd cof byw gan fy mam am yr hanes a glywsai am y tro diwethaf y bu gartref. Bob tro y byddai'n cychwyn yn ôl i ddal y trên am Fangor yng ngorsaf reilffordd Tregarth, i ffwrdd â fo ar garlam i fyny'r allt o Hendyrpeg a diflannu yn y man dros y copa ym Mhenygroes. Y tro olaf hwnnw, fodd bynnag, rhedodd i fyny'r allt yn ôl ei arfer ond, am y tro cyntaf erioed, stopiodd a chwifio'i law o Ben Gamfa ar ei rieni a safai yn nrws eu cartref. A dyna'r tro olaf iddynt ei weld.

Medal

Pan ddychwelodd William Moses at y Ffiwsilwyr Cymreig, anfonwyd ei gatrawd i Balestina. Ar Dachwedd 6, 1917, ar sail ei ddewrder yn mentro drwy ganol tanio ffyrnig i drwsio gwifrau teleffon, dyfarwyd iddo fedal y 'Military Cross'. Anfonodd lythyr adref at ei fam (gan y gallai hi, yn wahanol i'w gŵr, ddarlennu) yn gofyn 'Be' ma' fy nhad yn feddwl o fy medal?'. Atebodd hithau mewn llythyr ato: 'Mae o'n d'eud y byddai'n well gynno fo dy gael di gartra na holl fedalau'r byd!'.

Ond 'ddaeth William Moses ddim adra - cafodd ei ladd ar Fawrth 9, 1918, ym Mhalestina - roedd yn 25 oed. Roedd ganddo lun merch ifanc brydweddol, mewn dillad nyrs, yn ei boced ond ni wyddai neb o'r teulu pwy oedd hi. Claddwyd ef ym Mynwent Filwrol Jerusalem, Israel, ond torrwyd ei enw ar garreg fedd y teulu ym mynwent Eglwys St Mair, Y Gelli, Tregarth. Cyd-ddigwyddiad rhyfedd yw mai Mawrth 9, yr un dyddiad â phan laddwyd fy hen-ewythr, yw dyddiad fy mhen-blwydd i.

'Pwy lladdodd o?'

Wedi colli ei fab, ni ddaeth William Jones fyth ato'i hun. Bob bore, pan godai, gofynnai'r un cwestiwn; 'Pwy lladdodd o?' Pa ryfedd iddo fynd o'i go'n lân - a chythraddo fy hen-nain ar adegau pan ofynnai amdani i bob ymwelydd, 'Pwy ydi'r hen wraig bach 'ma? Ydi hi'n talu am ei bwyd?' Bu William Jones farw ar Fai 23, 1930, yn ei gartref, Bron Ogwen, Hendyrpeg, a'i wraig ar Fedi 30, 1936.

A pha ryfedd fy mod innau'n cofio o hyd am William Moses, yn enwedig pan glywaf am fechgyn ifaine y dyddiau hyn yn colli eu bywydau yn Irac ac Afghanistan!

Gwasanaethau Garddio a Choed

Gwyn Ifor

Ymgwymerwr garddio,
trin a thorri coed

Cymwysterau 'NPTC' Yswiriant Llawn

Ffôn: Rhiwlas 01248 361457

Symudol: 07525 255383

Tony
Two me y

Peintiwr ac
Addurnwr
Trwyddedig

Gwneir unhyw waith,
mewnol ac allanol.

Ffôn Symudol:
07796156829
Tŷ: 01248 602039



G.P. BUILDING Gwaith Saer Maen

Pob math o waith adeiladu
a chlirio gan
Gavin Pritchard
10 Penrhyn View, Tregarth
01248 601266
07526850432

Meithrin menter gymdeithasol leol

Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â

Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



WU SHU KWAN


Bocsio Cic Tsieineidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
7.00 tan 9.00

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwllans Gogledd Cymru

Modurdy Central
Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

electricals
andrew duggan
Atgyweiriadau teledu a fideo,
offer sain, derbynwyr lloeren.
Hefyd gwerthiant a gwasanaeth
38 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AN
Ffôn/Ffacs 01248 602584

**Gwasanaeth Trin
a Thorri Gwallt Ceri**
 1 Bryn Eglwys
Llanllechid
Gwynedd
LL57 3LE
Ffôn: 07796 583 203

Y Douglas Arms
* Lluniaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun - Gwener: 5.00 - 11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

"J.R."
SGAFFALDWYR
Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda
Ffôn: (01248) 601754
Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

**MODURON
PANDY
Cyf.**
Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.
Ffôn: 01248 600619 (dydd)

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwygo ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffï neu mewn lle o'ch dewis chi)
Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

**MODURDY
FFRYDLAS**
 Profion
M.O.T.
Perchenogion
I.D.Hughes ac A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Sefydlwyd 1969
**m.hughes
a'i fab**
CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partion
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?
Ffoniwch
01248 602550
e-bost : karena@agoriad.org.uk

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTION AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Gorsaf betrol
BERAN
Deiniolen
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor bob dydd 24/7
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Tocynnau loteri
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffonau symudol,
trwyddedau teledu ayyb

Blodau Hyfryd
7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ ☐ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur
Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan
Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Croesair Ionawr 2012

AR DRAWS

- Nod yr ail efenglydd (4)
- Ffrind pennaf Gari Tryfan (4)
- "Dim ond un gusan fach f'-----, Ddaw a'r haf yn ôl i'm calon i." Cân boblogaidd. (7)
- Yn ddryslyd iawn, mae sôn i dref arbennig gael dwy. A oedd un yn fistar corn ar y llall tybed! (8)
- Yr awr hon awn i'r gogledd (4)
- Moses, y 'baban yn yr ----' (4)
- Dodrefnyn tywyll traddodiadol Gymreig (6,2)
- Alcoholwyr ----- (AA), elusen i helpu pobl efo problem diod (8)
- Dylai pawb fwyta o leiaf ddau ---- o bysgod bob wythnos meddai deietegwyr (4)
- Mae torri cneuen efo'r erfyn yma yn ddarlun o ormodiaeth (4)
- I rywun ofnus, dyma'r gair i ddisgrifio profiad erchyll (8)
- Fy mugail, yn ôl yr enwog drydedd salm ar hugain (7)
- Un o dreigladau geiriau Cymraeg sydd hefyd yn disgrifio gwisg sy'n cyrraedd at ei thraed (4)
- Heb neb o dano (4)

I LAWR

- Mab y fan yma yw plentyn y gweinidog (4)
- Mae dail un yr ebol yn dda at wella annwyd meddai'r llysiuwydd (4)
- Dewrder dyn (8)
- Un sy'n wael yn yr ysbyty (4)
- Bronfraith, mwyalchen, eos; y rhai sy'n canu'n swynol (4,4)

- Heb amheuaeth, yn 8 Ar Draws, yr un arian a'r un pres (4)
- Dyma wnaeth Samiwel i Dafydd i'w wneud yn frenin (7)
- Cyfnod yn eich bywyd pan y dywedir eich bod yn tynnu'n groes o hyd ac yn mynd dros ben llestri'n aml (7)
- Maesglas yw Greenfield yn Gymraeg. Beth felly yw lliw y borfa? (8)
- Gair mawr y rhai sy'n sôn ac yn dyheu am y gorffennol o hyd (8)
- '---- dysg na golud', 'Nid da lle gellir ----' (4)
- Merch gegog sydd am redeg i ffwrdd yn 'Te yn y Grug', Kate Roberts (4)
- Rydw i wedi rhoi fy nhraed ---- a gadael y gath allan o'r cwd! (4)
- Mae Ifas yn sefyll (4)


ATEBION CROESAIR IONAWR 2012

AR DRAWS

- Y bwa; 4. Cof; 6. Fflagl; 8. Pefrio; 9. Castan; 10. Morleidr; 11. Gogr; 12. Dacw mam yn dwad; 17. Adio; 19. Ansoddair; 22. Rhyfela; 23. Gormod; 24. Elsa; 25. Gyr; 26. Lois.

I LAWR

- Breuo; 3. Amryliw; 4. Crogi; 5. Ficerdy; 6. Ffisig; 7. Gwasgfa; 10. Mad; 13. Andwyol; 14. Aramaeg; 15. Diddorol; 16. Dwr; 18. Opera; 20. Segur; 21. Ifori.



14 i Lawr oedd yr unig faen tramgwydd i rai y mis diwethaf. Mamiath yr Iesu oedd y cliw, a'r ateb cywir wrth gwrs oedd Aramaeg. Felly, er tegwch i bawb, ni fedrwn dderbyn Arabaeg. Ar wahan i hynny roedd yr ymgeision yn hynod gywir. Da iawn chi y canlynol am atebion cywir : Jean Hughes, Talybont; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E. E. Roberts, Llanberis; Heulwen Evans, Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gwyndaf Jones, Caerllion-ar-Wysg; Rita Bullock, Bethesda; Dulcie Roberts, Gareth a Sara Oliver, Rosemary Williams, Tregarth.

Ond y mae'r wobr y mis hwn yn mynd i John a Meirwen Hughes, Cwellyn, 4 Heol Elwy, Abergele LL22 7US. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Atebion erbyn 29 Chwefror i 'Croesair Chwefror', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

CHWILAIR MIS IONAWR

ENILLWYR Y GORON YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

YN anffodus nid wyf wedi gallu rhoi chwila'r at ei gilydd ar gyfer y mis yma. Felly dyma atebion chwila'r Ionawr ac enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir. Gyda lwc bydd y chwila'r yn ôl y mis nesaf.

Dyma atebion Ionawr;

Elis Wyn 1880, Watkin Wyn 1881, Anne Thomas 1883, Iolo Caernarfon 1890/1892, Wil Ifan 1913/1917/1925, Caradog Prichard 1927/1928/1929, Gwilym Myrddyn 1930, Eirug Davies 1932/1934, Dilys Cadwaladr 1953, Tom Parri Jones 1965, Einir Jones 1991, Eigra Lewis Roberts 2006.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir.

Mrs Glenys Clark Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Elizabeth Buckley, Maes Ogwen Tregarth; Meirion Williams, Manceinion; Doris Shaw, Bangor; Mair Jones Ffordd Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda; Eirlys Edwards, Central Garage, Bethesda; Herbert Griffiths, Maes Ogwen, Tregarth.

Enillydd Ionawr oedd: Marilyn Jones, I Glanffrydlas, Bethesda.

Dosbarth Ysgol Pen-y-bryn 1958/59



Rhes ôl: ?, ?, Selwyn, Aled, Ken, Neville, ?, Keith, ?, Barry Rita, Helen, Judith, Carys, Carol, Avril, Pat, Nia, Helen, Mary Rosemary, Heulwen, Sheryl, Susie, ?, ?, Sandra, Brenda, Alma Rhes Flaen: Brian, Tony, Keith, John, Johnathan.

Ydach chi'n nabad rhywun? Fedrwc'h chi lenwi rhai o'r bylchau?

(Diolch i Heulwen Bright am anfon y llun atom).

D. E. HUGHES a'i feibion cyf

**YMGYMERWYR ADEILADAU
N.H.B.C.**
Gardd Eden, Stryd Fawr,
Rachub, LL57 3HF

Ffôn a Ffacs 01248 602010

SAER I.D.R. JOINERY Busnes Ifanc Cymraeg Lleol

Am waith saer o safon uchel a
phris diguro
Cysylltwch ag IWAN



07553 977275



01248 602062

Cymwysedig a phrofiadol ym
mhob agwedd ar waith saer.
Dibynadwy a chyfeillgar.

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

**Ffoniwch
01248 601164**

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



**DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL**

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



**BETHESDA
01248 600171**

torgbethesda@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD TŶ

OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies Plymio a Gwresogi

Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640

01248 601 466

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yn Neuadd Talgai, Llandygái, gyda'r Cynghorydd Kevin Glyn Williams yn y Gadair.

Cafwyd cadarnhad gan gwmni National Rail eu bod wedi atgyweirio'r gamfa ar groesfan y rheilffordd yn ardal Tai'r Meibion ger Wig yn dilyn ymholiad gan y cyngor am gyflwr y gamfa.

Penderfynwyd ar roddion ariannol am y flwyddyn 2011-2012:

£1000 i Bwyllgor Apêl Bethesda a Llanllechid, Eisteddfod yr Urdd, Eryri 2012.

£100 i Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen, Grŵp Cymunedol Talybont, Llais Ogwan, a Chanolfan Ieuencid a Chymdeithasol Rachub.

£50 i Glwb Henoed Rachub, Cylch Ti a Fi Rachub, Cyfeillion Samariaid Bangor, Eglwys Bethlehem, Talybont; Dawns Gwynedd, Bara Caws, NSPCC, Shelter Cymru, Cruse, Cymorth i Ddiodefwyr, Marie Curie, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Cymdeithas y Byddar, Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod Ionawr yng Nghanolfan Tregarth, gyda'r Cynghorydd Mrs Mair Owen Pierce yn y Gadair.

Cafwyd ar ddeall fod arolwg diogelwch i gael ei wneud ar waelod Allt Cerrig Llwydion a bod y Swyddog Hawliau Tramwy yn trefnu i archwilio'r llwybr o gorlan Grydd.

Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r Cyngor Sir oherwydd llifogydd gerllaw Tan y Bwlch.

Mae'r bont ar lwybr o gyfeiriad Tan y Bwlch wedi cael ei hatgyweirio a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar lwybrau eraill yn y flwyddyn ariannol newydd.

Penderfynwyd hysbysu'r Cyngor Sir am yr arwyddion sydd wedi cael eu fandaleiddio yn yr ardal ac am y ffyrdd y mae angen clirio sbwriel oddi arnynt, a hefyd am lwybr ble mae'r ffens wedi disgyn.

Cafwyd adroddiadau gan y Cynghorwyr Dafydd Meurig, Mrs E. Frodsham a Rhys M. Llwyd. Bu'r Cynghorydd Dafydd Owen mewn cyfarfod safle gyda swyddog o'r cyngor sir.

Penderfynwyd cadw treth yr ardal yr un fath a'r llynedd a'r blynyddoedd cynt.

Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfu'r cyngor yng Nghanolfan Glasinfryn ar 12 Ionawr 2012 gyda'r Cynghorydd Bernard Jones yn cadeirio.

Treth y Cyngor

Wedi trafodaeth, pleidleisiwyd o blaid cynnig y Cynghorydd D.A. Rowands (gyda'r Cynghorydd D.H. James yn eilio) na ddylid codi lefel y praesept am y flwyddyn 2012 – 2013.

Hen Ffordd Ger Tafarn y Faenol

Yn dilyn ymholiad gan y Cyngor i statws y ffordd hon cafwyd ateb gan y Cyngor Sir yn nodi bod y ffordd yn dal i fod wedi ei chofrestru fel priffordd. Bwriad y Cyngor oedd holi a fyddai'n bosibl ei defnyddio fel llwybr i drigolion Rhiwlas sy'n dymuno mynd i dafarn y Faenol.

Deiseb Parchu Pentir

Cafwyd gwybodaeth gan y Gymdeithas ei bod wedi cychwyn deiseb i geisio cael y Cyngor Sir a'r Heddlu i gytuno i gyfyngiad cyflymder o 50 mya ar yr A4244 trwy Bentir. Hyd yma nid yw'r awdurdodau'n cytuno â'r alwad. Mae'r Gymdeithas yn gobeithio y bydd y ddeiseb a thystiolaeth gan y trigolion yn ddigon i newid eu meddyliau. Dywedodd y Cynghorydd John Wyn Williams fod y Cynulliad am weld pob Cyngor Sir yn ailedrych ar gyflymder ar briffyrdd o fewn eu ffiniau. Dywedodd fod y Cyngor Sir yn gobeithio gwneud yr ymchwiliad i'r ffordd yma o fewn y tri mis nesaf.

Tai Cymunedol

Holodd y Cynghorydd T.A. Williams ynglŷn â'r modd y mae'r system gosod tai ar gyfer tenantiaid yn gweithio. Penderfynwyd holi'r cwmni ymhellach am y sefyllfa.

Cynllunio

Penderfynwyd gwrthwynebu cynlluniau i droi adeiladau amaethyddol yn un tŷ annedd a dau fwrthyn gwyliau ar safle Tŷ Coch, Glasinfryn. Sail y gwrthwynebiad oedd diogelwch y ffyrdd a chynnydd posibl yn y drafnidiaeth ar y ffordd gul yma oherwydd y datblygiad. Cafwyd gwybodaeth gan y Cynghorydd J.W. Williams nad yw'r cwmni sydd am hawl cynllunio i ddatblygu safle hen ysbyty Minffordd wedi ymateb i'r holiadur a anfonwyd atynt gan y Cyngor Sir yn gofyn am ragor o fanylion. Nid yw'r cais wedi cael eu drafod gan y Cyngor Sir hyd yma.

Goryrru trwy Lasinfryn

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Marred Jones yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda chynrychiolydd o'r Cyngor Sir. Addawyd y byddent yn edrych ar osod arwyddion rhybuddio newydd ar y ffordd i mewn i'r pentref o'r A4244 ger Felin Hen.

Canolfan Amgylcheddol Moelyci



Llongyfarchiadau i'r Ganolfan am baratoi cyfres o ddigwyddiadau a chyrsiau amrywiol a diddorol. Mae

rhai ohonynt yn rhad ac am ddim ond mae'n rhaid talu am rai cyrsiau. Os oes gennych ddiddordeb ac os ydych yn awyddus i ymuno a rhai o'r gweithgareddau dylech gysylltu â'r Ganolfan ar 01248 602793; e-bost: office@moelyci.org

Rhestr Digwyddiadau a Chyrsiau

Sbloets o Lyffantod Duon :

20 a 27 Chwefror; 5, 12 a 19 Mawrth. Dechrau am 6 y.h.

Gweld Dyfrgwn ar Lôn Las Ogwen :

Chwefror 23 a Mawrth 8. 10 yb – 1 yp.

Adnabod Mwsoglau (cyflwyniad) :

24 Chwefror. 10 yb – 4 yp.

Nyddu i Ddechreuwr :

11 Mawrth. 9.30 yb – 4 yp.

Adar Lôn Las Ogwen : 13 Mawrth. 10 yb – 1 yp.

Madfallod (cyflwyniad) : 15 Mawrth. 7.30 yh.

Blodau Gwyllt Coetir Lôn Las Ogwen :

16 Mawrth. 10 yb – 1 yp.

Nyddu Uwch: 18 Mawrth. 9.30 yb – 4 yp.

Ffotograffiaeth i Ddechreuwr : 10 yb – 4yp

RAS MOELYCI

Sadwrn 25 Chwefror
Cofrestru o 9.30yb ymlaen
Ras yn cychwyn am 12yp
Ffôn: 07934 489 330
E-bost: office@moelyci.org
Gwefan: www.eryriharriers.org.uk

Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro Dyffryn Ogwen

Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd yn festri Capel Jerusalem ar nos Fercher, 1 Chwefror, oedd y Parchedig Marcus Robinson o Gaernarfon. "Caplaniaeth" oedd ei destun ac fe gawsom noson ddifyr yn ei gwmni wrth iddo son am ei gyfnod yn gaplan gyda'r llynges. Ac nid dim ond siarad gawsom ni, ond dipyn go lew o actio hefyd, fel y gwelir yn y llun.



**Hysbysebwn yn y
Llais: Cysylltwch â:
Neville Hughes
600853**

JOHN ROBERTS



**Paentiwr
Papurwr
Teilsiw**

**Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995**



**Posh Paws
Tacluso Cŵn**

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu **07935324193**
Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

**LONDIS
BETHESDA**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Blodau Racca
PENISARWAUN
*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub*
Ffôn: 01286 870605

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

**Ymgymwrw adeiladu a
gwaith saer**
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

SIOP BARBWR
MR TOM
78 Stryd Fawr
Bethesda
Torri gwallt Dynion a Phlant
gan Helen (hogan leol)
Hefyd Gwelyau Haul

**STEPHEN
JONES**
†
**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**
Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda
Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001
Gwasanaeth personol ddydd a nos

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

AUR
CLOGAU
Gostyngiad o
20%
Os nad mewn sêl eisoes



Siswrn Arian
**Trin Gwallt Merched,
dynion a Phlant**
Vivien, Amanda, Jenny a Nicola
GEMWAITH BO-WEN
GWASANAETH TYLLU CLUSTIAU
☎601888

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677
Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y
Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn
Llanrwst 01492 640794
Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Arian Loteri

Mae'r ysgol wedi derbyn grant gan y Gronfa Loteri Fawr i gael system sain yn neuadd yr ysgol – adnodd sydd wir ei angen yn yr ysgol ers blyneddau. Bydd yr arian yn ein galluogi i gael system sain gyfoes a chynhwysfawr a fydd yn golygu y gallwn gynnal amrywiaeth o weithgareddau yn y neuadd.

Henri Williams



Llongyfarchiadau i Henry Williams, blwyddyn 13, ar gael cynnig lle yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, i astudio Mathemateg. Mae Henry yn fathemategydd disglair iawn a bydd yn rhaid iddo ennill 2 radd A* ac un radd A i gyrraedd Rhydychen – dipyn o gamp – ond yn sicr o fewn ei gyrraedd!

Pêl-droed Merched



Llongyfarchiadau mawr i Chloe Hughes a Katie Midwinter ar gael eu dewis i fynd i hyfforddi gyda charfan pêl droed genethod Cymru dan 15 am wythnos yng Nghaerdydd. Ugain o ferched oedd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant ac yr oedd dwy o Ysgol Dyffryn Ogwen.

Yr Urdd - Ymweld â Glan Llyn

Ddiwedd mis Ionawr, mentrodd criw o ddisgyblion blwyddyn 7 i Lan Llyn am benwythnos. Roedd y tywydd yn oer ond yn braf, felly doedd yna ddim gormod o nofio yn y llyn, ond roedd digon o weithgareddau hwyliog eraill. Mae'r gwersyll wrthi'n cael ei ail-wneud ar y funud, felly roedd y caban bwyta a'r gegin wedi symud i'r gampfa dros dro - profiad rhyfedd! Er hyn, roedd y bwyd yn dda fel arfer, ac mae pawb yn edrych ymlaen at weld y caban bwyta newydd ddiwedd y gwanwyn. Roedd plant yno o bob cwr i Wynedd a Môn, a daeth pawb adref wedi gwneud ffrindiau newydd.

Diolch i Urdd Eryri, Môn a Meirionnydd am drefnu penwythnos hwyliog ac i staff Glan Llyn am y croeso.

Tŷ Gobaith

Bu tair o ddisgyblion blwyddyn 10 sef Bethan Hughes, Annest Rowlinson a Megan Jones yn brysur iawn yn gwerthu raffl fel rhan o'u prosiect BAC Blwyddyn 10. Y wobwr oedd baner tîm pêl droed 'Manchester Utd' wedi ei llofnodi gan bump o'r chwaraewyr. Llwyddodd y dair i gasglu £123.02 tuag at elusen Tŷ Gobaith.



Bethan, Annest a Megan yn cyflwyno'r sicr i Ms Katrina Lawson.

Ysgol Pen-y-bryn

Ymweliad Cyngor Ysgol Pen-y-bryn â Chwarel Penrhyn

Fe gawsom ni fel aelodau o Gyngor Ysgol Pen-y-bryn y cyfle i ymweld â Chwarel Penrhyn ar ôl i ni ysgrifennu llythyr yn gofyn am y cyfle i ni greu cyswllt gyda'r gwaith pwysig yma. Martin Beattie, goruchwyliwr hollti llechi, a Mike Ford y Peiriannydd a oedd yn ein tywys o amgylch y chwarel. Yn gyntaf aethom i'r ystafell ymgynnul i gyfarfod y tywyswyr er mwyn i ni wisgo'r offer cywir. Roedd yn rhaid i ni wisgo siaced lachar, helmed wen, welis trwm. Roedd yr athrawon yn edrych yn reit ddoniol yn gwisgo'r esgidiau caled a chryf, plygiau rwber clustiau a mwgwd llwch.

Fe aethom yn syth i'r ystafell gwrth-sŵn ble roedd Tony yn torri'r llechi gyda deiamwntiau ac yn eu marcio gyda "lasers" coch. Ar ôl i Tony eu torri nhw yn flociau 20x12, roeddent wedyn yn mynd ar gludfelt i gael eu gwlychu. Yna maent yn cael eu hollti. Os oedd y llechi wedi eu hollti yn anghywir roeddent yn cael eu rhoi mewn pentwr o rwbel sy'n cael ei ddefnyddio i wneud pethau fel: colur, chippings dreif, siampw a.y.y.b.

Ar ôl bod drwy'r broses honno roedd rhai yn cael eu siapio yn siapau diddorol a ffansi. Ar ôl bod drwy'r holl brosesau maent yn cael eu gwasgu yn andros o dynn at eu gilydd. Yna maent yn cael eu hitio gyda morthwyl rwber i wneud yn siŵr bod y llechi ddim yn ysgwyd ac yn malu gan eu bod yn fregus iawn. Y cam nesaf yw eu rhoi mewn cartiau pren i gael eu hallforio dros y byd. Yna gwelsom y llechi yn cael eu hollti yn yr hen ffordd sef eistedd i hollti'r llechi. Dyma'r unig beth sydd yn debyg rhwng y chwarel ddoe a heddiw.

Ar ôl gweld yr holl hollti llechi fe aethom i'r sied fechan i weld y llechi mwyaf yr oeddent yn eu cynhyrchu sef y "queens" a'r "ladies". Hefyd yn yr un sied mi welsom sut yr oeddent yn siapio'r llechi flynyddoedd yn ôl. Diddorol oedd clywed am y gwahaniaethau rhwng chwarel Penrhyn ddoe a heddiw. Y prif wahaniaeth oedd iechyd a diogelwch a datblygiad mewn periannau a thechnoleg. Dysgom lawer o ffeithiau newydd a diddorol. Braf oedd clywed fod y rheolwyr yn glên erbyn hyn, yn wahanol i ddyddiau y Lord wrth gwrs!

Diolch yn fawr iawn i Martin a Mike am wneud yr ymweliad mor bleserus. Rydym yn edrych ymlaen i weld sut ydym am ddatblygu'r berthynas yma yn y dyfodol.

Cadi a Shaun.

Ysgol Bodfeurig

Dathlu

Er bod mis Ionawr yn gallu bod yn fis tywyll a digalon roedd yn fis lliwgar, llawn hwyl yn Ysgol Bodfeurig gan ein bod yn dathlu nifer o achlysuron gwahanol. Yn ystod y mis cawsom ddathlu diwrnod Santes Dwynwen wrth ddysgu am hanes Dwynwen yn ogystal â chreu cardiau i bobl arbennig!



Roedd hefyd yn amser i ddathlu'r flwyddyn newydd Tseiniaidd, achlysur yn llawn hwyl a sbri gyda chyfle i ddysgu am fywyd yn Tseina, blasu bwyd Tseiniaidd a chreu crefftiau megis dreigiau. Cafodd pawb hwyl yn dathlu yn ystod y mis gan ddysgu pethau newydd a chael profiadau newydd. Tybed beth gawn ni ddathlu nesaf? Dyma ddisgyblion Blwyddyn 1 gyda rhai arteffactau Tseiniadd.

Adnabod Adar

Diolch i griw o ddisgyblion yr ysgol fu'n gweithio'n galed yn cynnal arolwg o'r adar a welir o amgylch tir yr ysgol. Bu'r criw yn cyfri'r adar gan gofnodi'r canlyniadau ar wefan yr RSPB. Gwelwyd dros 50 o adar mewn cyfnod o awr a buom yn creu graffiau i ddangos y canlyniadau. Rydym yn gobeithio y bydd rhai o'r adar yma yn dod i nythu ar dir yr ysgol yn y misoedd nesaf.

Diogelwch gyda P.C Thomas



Diolch unwaith eto i PC Dewi Thomas am ddod i gynnal gwersi yn yr ysgol. Cafodd yr adran iau sgwrs ddiddorol a chyfoes am ddiogelwch ar y rhyngwyd a'r peryglon posib. Mae'n debyg fod pawb wedi dysgu gwersi pwysig. Cafodd y babanod gyfle i wisgo cap plismyn a dychmygu sut beth oedd bod yn blismon. Diolch PC Thomas!

Ysgol Llanllechid

Ymweliad Pennaeth Addysg Gwynedd



Cafwyd y pleser o groesawu Mr Dewi Jones, Pennaeth Addysg i'n hysgol yn ddiweddar. Treuliwyd bore difyr yng nghwmni'r Pennaeth Addysg a chafodd y disgyblion gyfle i ddangos eu doniau iddo ar lafar a chân yn y neuadd. Yna, bachwyd ar y cyfle i ymweld â'r dosbarthiadau. Cyn ffarwelio, cafwyd cyfarfod gyda'r Grwp Mentergarwch. Mae'r grŵp hwn yn mynd o nerth i nerth ac ers mis Medi wedi creu cynhyrchion lu. Braint ac anrhydedd oedd i'r Pennaeth Addysg gyflwyno peiriant gwnio arbennig i'r aelodau. Diwrnod i'w gofio!

Y Fari Lwyd

Bu dosbarthiadau Mrs A. Parry Owen, Mrs M. Jones, Mrs B. Jones a Ms Angharad Thomas yn cael hwyl fawr yn trafod hen arferion Calan. Ymysg y gwahanol weithgareddau cafwyd cyfle i wneud afalau calennig, dysgu caneuon a rhigymau calennig a mynd o amgylch y dosbarthiadau gyda'r Fari Lwyd. Rhoddwyd cyflwyniad ardderchog o'r cyfan yn neuadd yr ysgol a'r plant i gyd werth eu gweld. Diolch i Mr Pickering am gael benthyc y pengolff ceffyl!

Blwyddyn Newydd y Ddraig

Yn ôl ein harfer, cafwyd cyfle i ddathlu blwyddyn newydd y Tseiniad. Blwyddyn y Ddraig yw hi eleni, a bu pob dosbarth yn brysur fel lladd nadroedd yn ymwneud â gwahanol weithgareddau wrth ddysgu am draddodiadau Tseina. Aeth dosbarth Mrs Wilson i fwyty *Eastern Origin* ym Mangor, lle cawsant groeso anrhydeddus a gwledd gyda'r chopsicks. Yr uchafbwynt oedd gweld y ddraig yn gwneud ei champau o amgylch y byrddau! Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn arw a diolch i fwyty Eastern Origin am y croeso. Ymchwilio i hanes Chang, y cawr o Tseina fu Blynnyddoedd 1 a 2, gan wneud lluniau gwych ohono ar gefndir o batrymau cywrain.

Santes Dwynwen

I ddathlu diwrnod Santes y Cariadon, daeth pawb i'r ysgol mewn dillad coch. Cafwyd llawer o hwyl yn gwneud cardiau, llwyau caru ac actio'r stori.

PC Dewi Tomos

Cafwyd ymweliad gan PC Dewi Tomos unwaith eto. Y tro hwn bu'n sôn am sut i gadw'n ddiogel. Cafodd y plant bach gyfle i wisgo hetiau plismyn ac edrych ar wahanol offer yr heddlu.

Sioe Bypedau

Croesawyd cwmni *Treasure Chest* i'r ysgol unwaith eto i roi sioe bypedau i'r ysgol gyfan. Y tro hwn, *Robin Hood* oedd y stori, a chafodd y disgyblion holi'r pypedydd a darganfod sut mae'r cyfan yn gweithio.

Sgiliau pêl

Mae Blynnyddoedd 1 a 2 yn mwynhau sesiynau sgiliau pêl ym Mhlas Ffrancyn yn ystod y tymor yma, ac yn cael llawer iawn o hwyl arni!

Dyweddiad Mr Stephen Jones

Llongyfarchiadau gwresog i Mr Stephen Jones ar ei ddyweddiad gyda Ms Anest Jones. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch i'r dyfodol.

Marathon Llundain

Ar hyn o bryd mae'r ddau Mr Jones, sef Mr Huw Jones a Mr Stephen Jones yn chwysu chwartaiau wrth ymarfer ar gyfer Marathon Llundain! Mae'r ddau yn brysur yn codi arian tuag at elusennau *Meningitis Trust* a *Get Kids Going*. Gwerthfawrogi unrhyw gyfraniadau gan

ddarllenwyr y Llais hefyd. Os oes gennych ddiddordeb ffoniwch 01248 600 600 . Llawer o ddiolch i chi sydd eisoes wedi cyfrannu at yr achosion da hyn.

Taith i Abergwyngregyn



Braint oedd cael ein tywys i Abergwyngregyn gan Mrs Nia Williams ar ran Parc Cenedlaethol Eryri. Cafwyd diwrnod gwerth chweil yn dysgu am fyd natur ac roedd pawb yn gwrando'n astud ar hanes Llywelyn Fawr. Diwrnod gwerth chweil. Edrychwn ymlaen at y daith nesaf!



Dosbarth y babanod yn mynd â'r ddraig o amgylch pentref Rhiwlas

Dringo

Cafodd plant yr adran Iau gyfle i fynd i Ganolfan Conwy ar ddechrau'r mis i ddringo. Rydym yn ffodus iawn gan fod tad Lucy a Ben yn gweithio yno ac wedi rhoi eu amser i'n helpu. Braff oedd gweld y plant yn llwyddo mewn antur mor heriol.

Canu Calennig

O! am leisiau swynol yn canu yn y pentref. Beth sy'n mynd ymlaen? Wel, plant y babanod yn canu Calennig siwr. Diolch i nain a taid Osian am y croeso.

Cyngor Ysgol

Bu pleidlais gudd wythnos diwethaf i sefydlu Cyngor Ysgol. Llongyfarchiadau i'r aelodau newydd.

Babanod, Adah a Martha.

Blwyddyn 3, Gwen a Cassie.

Blwyddyn 4, Erin a Holly.

Blwyddyn 5, Ciara a Megan Wyn.

Blwyddyn 6, Iestyn a Nia.

Siaradwyr

Diolch o galon i Mr Elwyn Jones am ddod i siarad gyda'r adran Iau am ei brofiadau yn y chwarel. Diddorol iawn oedd gweld yr offer a chlywed am ei anturiaethau. Diolch hefyd i PC Dewi Thomas unwaith eto am ddod draw i siarad gyda plant y Babanod ac hefyd yr adran Iau. Galwodd Mr Andrew Sedatry i un o wasanaethau boreol yr ysgol i siarad gyda'r plant. Diolch i Mr Sedatry am ei eiriau doeth.

Profion

Mae'r plant yn cael profion sillafu a phroffion tablau yn wythnosol. Da iawn chi blant am ddsygu'r gwaith gyda'r teulu. Cofiwch weithio'n galed erbyn y prawf nesaf hefyd. Diolch i'r rhieni am ein cefnogi yn yr ymgyrch newydd yma.

Rhewi

Ydy wir, mae hi'n rhewi – a diolch byth gan fod y plant yn arbrofi yng nghoedwig yr ysgol fel rhan o waith gwyddoniaeth y tymor. Diolch i Lucy ac Ali am helpu gyda'r arbrawf.

Celf

Mae Miss Sioned Edwards yn galw yn yr ysgol yn wythnosol i helpu gyda gwaith Celf. Mae hi'n brysur ar y funud gyda'r adran Iau yn gweithio gyda llechi a phaent. Bydd gwledd i'r llygaid reit fuan. Santes Dwynwen

Cafodd y plant cyfle i wisgo dillad coch yn yr ysgol i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen ac roeddynt yn edrych yn werth chweil hefyd!

Ysgol Rhiwlas

Blwyddyn Newydd Tseiniadd

Bu dathlu mawr yn yr ysgol fel rhan o waith thema'r tymor. Fe aeth plant yr ysgol i fwyty *Eastern Origin* ym Mangor am wledd. Bu'r perchnogion yn garedig yn iawn yn bwydo, sôn am eu traddodiadau a dangos eu gwisgoedd hardd i'r plant.



Hefyd fe aeth plant y Babanod allan i'r pentref gyda'r ddraig fawr goch Tsineiaidd a gyda gwahanol offerynnau, i gyfarch y pentrefwyr. Dangosodd Mrs Jones ddraig Tsineiaidd roedd ei merch wedi ei wneud i'r Babanod. Roeddynt wrth eu bodd yn clywed am ei hanes. Bu'r plant yn blasu gwahanol fath o de Tseina. Eisteddent yn ddistaw tra bu Mrs Green yn dangos iddynt sut i'w wneud a'i yfed. Ar ddiwedd y dydd daeth y rhieni i mewn i weld y broses hefyd.

Cynhelir
**Dydd Gweddï Byd-eang
y Chwiorydd**

(Rhyngwladol)
yng Nghapel Jerusalem, Bethesda
Dydd Gwener 2 Mawrth
am 2.00 o'r gloch

Ysgol Tregarth

Myfyrwraig o Wlad y Basg

Croeso mawr i Maria Aguayo, myfyrwraig o Wlad y Basg i Ysgol Tregarth. Mae Maria yn aros gyda Glynys a Derek Roberts yn Nhregarth ac yn arsylwi ym mhob dosbarth ac yn cael cyfle i ddysgu am ddiwylliant a dulliau dysgu Cymru. Mae'r plant hefyd wrth eu boddau yn dysgu am Wlad y Basg ganddi hithau.

Penblwydd Hapus Mistar Urdd.



Cafwyd barti penblwydd arbennig i ddathlu penblwydd Mistar Urdd yn 90 oed. Gwisgodd y plant ddillad coch gwyn a gwyrdd drwy'r dydd.

Diolch yn fawr i Mrs Jones am y cacennau penblwydd bendedig; bwytaodd y plant jeli coch a gwyrdd a hufen ia gwyn i ddathlu'r achlysur arbennig. Roedd y ditectifs iaith yn brysur wrth eu gwaith yn siarad Cymraeg hefo pawb.

Llwyddiant Gymnasteg

Llongyfarchiadau mawr i Sophie Pipe ac Eban Hargreaves am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd. Bydd y ddau yn teithio i Aberystwyth i gynrychioli'r ysgol yn rowndiau terfynol. Da iawn chi!!

Cystadleuaeth F1



Ar Ionawr 31 aeth tîm *Phantom* i Brifysgol Bangor i gymryd rhan mewn cystadleuaeth Formiwla 1 mewn ysgolion. Mae'r plant wedi bod yn gweithio'n galed ers misoedd, mewn clwb ar ôl ysgol ac ar amseroedd chwarae, i gael y car yn barod.

Roedd rhaid i'r tîm rasio'r car yn erbyn ceir ysgolion eraill, rhoi cyflwyniad ar beth yr oeddynt wedi'i ddysgu ac arddangos eu gwaith dylunio a marchnata. Gwibiodd y car ar hyd y trac 20 medr mewn 1.5 o eiliadau. 'Roedd y tîm wedi gwirioni wrth weld y car yn dod yn fuddigol yn y ras! Braff oedd clywed y plant yn cael yn canmol am eu gwaith caled. Dywedodd y beirniad ei bod yn amlwg bod y tîm wedi dysgu llawer am aerodynameg a grymoedd oedd yn effeithio ar gyflymder car. Er na ddaeth y tîm yn fuddugol ar y diwrnod roedd y profiad yn wych a phawb wedi mwynhau'r diwrnod. Diolch yn fawr iawn i Moduron Pandy, Bradite, Krypton Clothing a Delsol am noddi'r tîm.

Mynd am dro i'r parc

Bu paratodau mawr ym mlwyddyn 1 a 2 ar gyfer taith i'r parc. Bu pawb yn brysur yn cofio bod angen gwisg addas ar gyfer y gaeaf – menig, hetiau, wellingtons, a chotiau di-ri! Cerddodd blwyddyn 1 a 2 yr holl ffordd o'r ysgol i waelod y pentref ac ar hyd lôn las Ogwen. Bu'r plant yn brysur yn arsylwi arwyddion y gaeaf, ac yn casglu brigau a dail i greu parc i Persi yn y dosbarth.

Ysgol Abercaseg

Ymweliad hanesyddol.

Daeth Mrs Brenda Wyn Jones i sgwrsio am y chwarel a streic y Penrhyn gyda phlant dosbarthiadau Ogwen a Ffrydlas. Cafwyd llawer o hanesion difyr am fywyd ym Methesda yn ystod y cyfnod hwn. Diolch yn fawr Mrs Jones - fe wnaeth y plant fwynhau yn fawr!

Ymweliad Celf.

Treuliodd Ms Cathrine Aran fore yn nosbarth Ffrancon yn darllen stori Gelert ac yna'n arwain y plant mewn gweithgareddau actio. Cafwyd llawer iawn o hwyl a mwynhad gan y plant a'r staff! Diolch o galon am eich gwaith.

Trip i Feddgelert.

Cafodd plant dosbarth Ffrancon drip i Feddgelert i ymweld â'r bedd fel rhan o waith y dosbarth am y tymor yma.

Ymweliad Falyri Jenkins.



Daeth Mrs Falyri Jenkins atom am ddiwrnod er mwyn cynnal gweithdai cerddorol a gwaith cyfansoddi. Cafodd y plant brofiadau amrywiol a gwerthfawr yn ei chwmmi. Diolch yn fawr iawn am eich arweiniad.

Blwyddyn Newydd y Tseiniaid.



Er mwyn dathlu Blwyddyn Newydd y Tseiniaid gwisgodd y plant mewn dillad Tseiniaidd, a chafwyd arddangosfa liwgar o arteffactau o Tseina. Diolch hefyd i Anti Elen yn y gegin am goginio'r bwyd blasus i'r plant ei brofi.

Bore Coffi.

Cynhaliwyd bore coffi llwyddianus iawn yn Neuadd Ogwen fore Sadwrn, Ionawr 21ain. Diolch yn fawr i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu a hefyd i'r busnesau lleol am fod mor hael gyda'u cyfraniad at wobrau'r raffl. Casglwyd £640 at gronfa'r ysgol.

Hollti Llechi.

Daeth Ms Wendy Parry (mam Arwen) i'r ysgol i ddangos i'r plant sut i hollti llechi. Bu'n gweithio am rai blynnydoedd yn chwarel y Penrhyn. Y hi oedd y ferch gyntaf i hollti a naddu yn y chwarel. Diolch yn fawr iddi am roi ei hamser i ddod atom.



Ymweliad P.C Dewi Thom

Cafwyd sgwrs a chyflwyniad diddorol am bobl sy'n ein helpu yn y gymdeithas. Hefyd cafodd y plant gyfle i ddysgu am waith y gwasanaethau brys. Diolch unwaith eto i P.C Thomas.

Tacluso Gardd yr Ysgol.

Diolch o galon i Uncle Ken a chriw ysgol Dyffryn Nantlle a fu'n brysur yn tacluso ac ail gychwyn yn yr ardd ar ôl y Gaeaf hir. Diolch yn fawr hefyd i ganolfan arddio Holland Arms am y bylbiau ar gyfer yr ardd.



Y Gloch

Weithiau'n lleddf ac weithiau'n llon,
o'r hen dŵr
Mae'n galw'r trigolion;
Chwilia â tinc ei chalon,
Llety pwy all ateb hon?

Dafydd Morris.



Hiraeth am y Ci

Yn aml rwyf yn ei deimlo oherwydd
Mor glir yw y cofio
Yr adeg bŵm yn troedio
O hyd â gwên gydag o.

Dafydd Morris

Rydym yn hapus iawn i dderbyn Cleifion Newydd



Dr. Dewi Williams

Dr. Robert Jones



DEINTYDDFA
GWYNFRYN
DENTAL PRACTICE

Canolfan Gosmetig a Mewnblaniadau
BANGOR

Mae Deintyddfa Gwynfryn a Chanolfan Gosmetig a Mewnblaniadau Bangor yn falch iawn o dderbyn cleifion newydd. Yn Neintyddfa Gwynfryn rydym yn cynnig deintyddiaeth gyffredinol ac ataliol a'n nod yw darparu gofal deintyddol eithriadol i bob un o'n cleifion er mwyn sicrhau fod eich ceg yn iach am oes.

Fel estyniad o'r ddeintyddiaeth gyffredinol ac ataliol sydd ar gael yn Neintyddfa Gwynfryn, mae Canolfan Gosmetig a Mewnblaniadau Bangor wedi ymrwmo i ddarparu'r diweddaraf i chi ym maes Deintyddiaeth Gosmetig. Os yw eich dannedd wedi torri, yn wahanedig, yn gam neu wedi newid lliw neu os mai dim ond eisiau gwên hardd, ddeniadol ydych chi, gallwn ni roi'r wên a ddymunwch i chi. Gall ein deintyddion cosmetig tra chymwys eich helpu i benderfynu sut i wella eich gwên, gan eich galluogi i deimlo'n well am y modd yr ydych chi'n edrych.

APWYNTIADAU BRYN AR GAEL AR YR UN DIWRNOD

MAE EIN STAFF YN DDWYIEITHOG

CYFLEUSTERAU CREDYD DI-LOG AR GAEL PAN WNEIR CAIS.
YN AMODOL AR STATWS, BYDD TELERAU AC AMODAU'N BERTHNASOL.

GWEDDNEWID GWÊN
GWYNNU DANNEDD
ARGAENAU
MEWNBLANIADAU
FFRAMIAU DANNEDD CLIR INVISALIGN®
LLENWADAU GWYN
CORONI A PHONTIO
DANNEDD GOSOD COSMETIG
TAWELYDDU
TRINIAETHAU ESTHETEG I'R WYNEB

DEINTYDDFA GWYNFRYN, FFORDD CAERGYBI, BANGOR, GWYNEDD, LL57 2EE

FFÔN: 01248 372 888 WWW.BANGORDENTISTS.CO.UK

Beth sydd ymlaen yn y Dyffryn?

**NEUADD OGWEN,
BETHESDA**

BOREAU COFFI



18 Chwefror Eglwys Glanogwen
25 Chwefror Plaid Cymru
21 Mawrth Ysgol Abercseg
28 Mawrth Canolfan Rachub
04 Mawrth Eisteddfod yr Urdd
11 Mawrth Cŵn Tywys i'r Deillion

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

NEUADD OGWEN BETHESDA

Pesda Roc yn cyflwyno

Siân James

Nos Wener, 2 Mawrth
am 7.00 o'r gloch

Tocynnau £10 (yn cynnwys bwyd)
o Siop Kath

NEUADD OGWEN BETHESDA

Bore Coffi

Plaid Lafur
10.00 i 12.00
Dydd Sadwrn 3 Mawrth

Mynediad 50c.
Elw at Eisteddfod yr Urdd,
Eryri 2012

NEUADD OGWEN BETHESDA

Bore Coffi

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

10.00 i 12.00
17 Mawrth

Mynediad 50c.

HYSBYSEBU YN RHAD AC AM DDIM YN Y LLAIS

i gymdeithasau a mudiadau yn
Nyffryn Ogwen
Hyd at y maint yma
(3" (750mm) X 1 golofn)

Cysylltwch â'r Trefnydd Hysbysebion

Neville Hughes (01248) 600853

Cylch Ti a Fi



MUDIAD
YSGOLION
MEITHRIN

Bob Bore Mawrth
9.15 - 10.45 am.

Canolfan Cefnfaes, Bethesda
Dewch am baned a sgwrs, stori a gân

Ffôn: 602032

**Cyngerdd Lansio
CD Newydd**

Côr y Penrhyn

Capel Jerusalem, Bethesda
Nos Sul, 19 Chwefror
am 7.30 pm.
gyda

Rhys Meirion a Chôr y Dyffryn

Tocyn: £7.00

Sherman Cymru a
Theatr Genedlaethol Cymru
mewn cydweithrediad â Galeri Caernarfon

yn cyflwyno

SGINT

(Bethan Marlowe)

yn Galeri Caernarfon
21 i 24 Chwefror
7.30 yr hwyr
Cyfarwyddwr: Arwel Gruffydd

Tocynnau: 01286 685222

Cast: Sara Harris Davies, Dafydd Emyr,
Robin Griffith, Morfudd Hughes, Nerys Lewis,
Christine Pritchard, Rhys Richards, Emyr Roberts,
Manon Wilkinson



Cyngerdd Mawreddog

Er budd Eisteddfod yr Urdd, Eryri 2012

Neuadd Prichard-Jones,
Prifysgol Bangor

Nos Wener, Mawrth 2^{ail}, 2012 am
7.00 o'r gloch

Band Jazz Ysgol Tryfan • Band Prês Porthaethwy
Côr Meibion Dinas Bangor
Côr Meibion y Penrhyn • Côr Neuadd Syr John Morris Jones
Casi Wyn • John Eifion • Ysgol y Garnedd
Dewi Elis Jones • Parti cyd-adrodd Ysgol Friars

Tocynnau ar werth am £5 yr un yn y manau cantynot:

Siop John (Bethesda)
Palas Print (Bangor a Chaernarfon) • Awen Menai (Porthaethwy)
Recordiau Cob (Bangor) • Cwpwrdd Cornet (Llangefni)
Siop Hwylus (Penrhosgarnedd)
neu ar-lein www.bangor.ac.uk/cyngherddau

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

DARLITH GOFFA RHIANNON ROWLANDS

7.00 o'r gloch
yn Festri Capel Jerusalem,
Bethesda

Nos Lun, 12 Mawrth
Elvey MacDonald
"Trobyntiau"

£1.50 wrth y drws neu
am ddim i aelodau

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs

Douglas Arms Bethesda
20.00 – 21.00

Trydydd Nos Lun pob mis



Dyddiadau'r Gaeaf

Yn Ystafell Fawr
Capel Jerusalem
(yn ymyl Spar)

10 Mawrth

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market